

# Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (5546)

Lefel 1 Llawlyfr unedau i ganolfannau

Ionawr 2026 Fersiwn 8.0



## Y cymhwyster yn fyr

<b>Maes pwnc</b>	<b>Cyflogadwyedd</b>
<b>Rhif City &amp; Guilds</b>	5546
<b>Grŵp oed wedi'i gymeradwyo</b>	Pob un
<b>Gofynion mynediad</b>	Dim rhagamodau ar gyfer mynediad
<b>Asesu</b>	Portffolio
<b>Llwybr cyflym</b>	Ar gael
<b>Deunyddiau cefnogi</b>	Pecynnau Unedau Llawlyfr y Ganolfan Llyfrau log unedau
<b>Cofrestru ac Ardystio</b>	Gweler y Walled Garden /Catalog Ar-lein am y dyddiadau olaf

<b>Fersiwn a dyddiad</b>	<b>Newid manylion</b>	<b>Adran</b>
2.2 Medi 2014	Wedi newid meini prawf asesu Uned 435.31	Unedau
3.0 Rhagfyr 2014	Unedau 448-461 wedi'u hychwanegu	Unedau
	Atodiadau 1, 2 a 3 wedi'u hychwanegu gan restru pa unedau lefel 2 sydd ar gael yng nghyfes cymwysterau Cyflogadwyedd	<b>Atodiad</b>
4.0 Chwefror 2015	Uned 406 wedi'i symud a 462 yn cymryd ei lle	<b>Cyflwyniad Unedau</b>
4.1 Mawrth 2015	Arweiniad ar gyfer 462 wedi'i ddiweddarau	<b>Unedau</b>
4.2 Mehefin 2015	Uned 506 wedi'i symud o'r wybodaeth wahardd am uned 401	<b>Unedau</b>
4.3 Medi 2015	Gwaharddiadau am unedau 411, 422, 426, 430, 439, 442, 444, 452 wedi'u diweddarau	<b>Unedau</b>
5.0 Rhagfyr 2015	Uned 486 wedi'i hychwanegu	<b>Unedau</b>
	Pob cyfeiriad at FfCCh wedi'i symud	<b>Trwy'r cyfan</b>
5.1	Canlyniad 2.3 wedi'i symud o uned 456 (dyblygu 2.1)	<b>Unedau</b>
6.0	Unedau 480, 475-477 wedi'u hychwanegu	<b>Unedau</b>
7.0	Uned 488 wedi'i hychwanegu	<b>Unedau</b>
8.0	Eglurhau arweiniad ar gyfer uned 404 Cyfathrebu Effeithiol MP 2.1 a 2.2.	<b>Unedau</b>

**City &  Guilds**



## Cynnwys

1	<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
	Cyfuniadau gwaharddedig	9
2	<b>Unedau</b>	<b>10</b>
<b>Uned 401</b>	<b>Cynllunio ar gyfer dilyniant</b>	<b>11</b>
<b>Uned 402</b>	<b>Rheoli cyllid personol</b>	<b>15</b>
<b>Uned 403</b>	<b>Profiad yn y gweithle</b>	<b>21</b>
<b>Uned 404</b>	<b>Cyfathrebu effeithiol</b>	<b>25</b>
<b>Uned 405</b>	<b>Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau</b>	<b>29</b>
<b>Uned 407</b>	<b>Sgiliau cyfweld</b>	<b>33</b>
<b>Uned 408</b>	<b>Chwilio am swydd</b>	<b>36</b>
<b>Uned 409</b>	<b>Dilyniant gyrfa</b>	<b>38</b>
<b>Uned 410</b>	<b>Cadw'n ddiogel</b>	<b>41</b>
<b>Uned 411</b>	<b>Gweithio fel rhan o dîm</b>	<b>45</b>
<b>Uned 412</b>	<b>Cyfrannu at eu byw'n iach eu hunain</b>	<b>48</b>
<b>Uned 413</b>	<b>Dysgu diogel yn y gweithle</b>	<b>51</b>
<b>Uned 414</b>	<b>Paratoi ar gyfer gwaith</b>	<b>55</b>
<b>Uned 415</b>	<b>Adeiladu perthnasoedd gwaith yn y gweithle</b>	<b>58</b>
<b>Uned 416</b>	<b>Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</b>	<b>61</b>
<b>Uned 417</b>	<b>Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</b>	<b>64</b>
<b>Uned 418</b>	<b>Prosiect yr ymgeisydd</b>	<b>67</b>
<b>Uned 419</b>	<b>Gweithgaredd menter - cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth</b>	<b>70</b>
<b>Uned 420</b>	<b>Ymgymryd â lleoliad gwaith</b>	<b>74</b>
<b>Uned 421</b>	<b>Prosiect cymunedol</b>	<b>77</b>
<b>Uned 422</b>	<b>Hunan asesiad a datblygiad</b>	<b>81</b>
<b>Uned 423</b>	<b>Cydnabod manteision cael cydbwysedd gwaith/bywyd</b>	<b>84</b>
<b>Uned 424</b>	<b>Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y gweithle</b>	<b>87</b>
<b>Uned 425</b>	<b>Sgiliau, rhinweddau ac agweddau effeithiol ar gyfer dysgu a gweithio</b>	<b>91</b>
<b>Uned 426</b>	<b>Cyfrannu i dîm</b>	<b>95</b>
<b>Uned 427</b>	<b>Nodi cyfleoedd cyflogaeth</b>	<b>100</b>
<b>Uned 428</b>	<b>Ymwybyddiaeth o fusnesau a chwsmeriaid</b>	<b>103</b>
<b>Uned 429</b>	<b>Dewisiadau amgen i waith cyflog</b>	<b>106</b>
<b>Uned 430</b>	<b>Delio â phroblemau</b>	<b>109</b>
<b>Uned 431</b>	<b>Datblygu hyder personol</b>	<b>112</b>
<b>Uned 432</b>	<b>Deall ymddygiad pendant</b>	<b>116</b>
<b>Uned 433</b>	<b>Ymdopi â newid</b>	<b>118</b>

Uned 434	Perthnasoedd rhyngbersonol	121
Uned 435	Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth	124
Uned 436	Gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth	128
Uned 437	Deall iaith a diwylliant cymuned	133
Uned 438	Cefnogi pobl eraill	137
Uned 439	Ymwybyddiaeth amgylcheddol	142
Uned 440	Perthnasoedd teulu	146
Uned 441	Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle	149
Uned 442	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o alcohol	153
Uned 443	Cyflwyniad i wneud penderfyniadau	157
Uned 444	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau	160
Uned 445	Deall trosedd a'i effeithiau	165
Uned 446	Defnyddio deunyddiau a chyfarpar ar gyfer gweithgaredd ymarferol	167
Uned 447	Deall anhwylderau bwyta	169
Uned 448	Ymwybyddiaeth o straen a rheoli straen	173
Uned 449	Deall gwrthdaro yn y gweithle	177
Uned 450	Deall cyllid personol ar gyfer cyflogaeth	180
Uned 451	Byw pendant	184
Uned 452	Ymwybyddiaeth o rianta	187
Uned 453	Datblygu sgiliau mewn gofalu am Blant ifanc	191
Uned 454	Deall datblygiad plant	195
Uned 455	Deall datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant	198
Uned 456	Cyflwyniad i ddeall twf, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant	199
Uned 457	Deall anghenion corfforol a seicolegol plant	201
Uned 458	Addysg rhyw a pherthnasoedd	203
Uned 459	Defnyddio sgiliau coginio yng nghegin y cartref	208
Uned 460	Cyflwyniad i weithio gydag oedolion mewn perygl	213
Uned 461	Datblygu technegau perfformio byrfyfyr	215
Uned 462	Ymgeisio am swydd	217
Uned 475	Ymddygiad mewn amgylchedd gweinyddu busnes	222
Uned 476	Creu argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid	226
Uned 477	Profiad gwasanaeth i gwsmeriaid	230
Uned 480	Cyflwyniad i weithio mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant	233
Uned 486	Cyflwyniad i wasanaeth i gwsmeriaid	237
Uned 488	Datgelu gwybodaeth	241
Atodiad 1	Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-01-02-03-04-05-06	245

<b>Atodiad 2</b>	<b>Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-21-22-23-24-25</b>	<b>248</b>
<b>Atodiad 3</b>	<b>Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-31-32-33-34-35</b>	<b>249</b>
<b>Atodiad 4</b>	<b>Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol</b>	<b>251</b>



# 1 Cyflwyniad

Mae City & Guilds yn cynnig yr unedau Lefel 1 hyn fel unedau dewisol yn y cymwysterau canlynol:

Teitl y cymhwyster	Rhif City & Guilds	Rhif Achredu Cymhwyster
<b>Dyfarniadau rhagarweiniol</b>		
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad Rhagarweiniol mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-01	601/3628/5
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad Rhagarweiniol mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)	5546-21	601/3657/1
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-31	601/3673/X
<b>Dyfarniadau Lefel 1</b>		
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Paratoi ar gyfer Cyflogaeth	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Llwyddo yn y Gwaith	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Dull o fyw	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Mentergarwch	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd –Cynllunio ar gyfer Bywyd a Gwaith	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Lleoliad Gwaith	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Gwirfoddoli	5546-02	601/3629/7
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd – Gweithio drosoch chi'ch Hun	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - Datblygiad Personol		
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - (Gogledd Iwerddon)		

City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) – Paratoi ar gyfer Cyflogaeth	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) – Llwyddo yn y Gwaith	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) – Cynllunio ar gyfer Bywyd a Gwaith	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - (Gogledd Iwerddon) - Lleoliad Gwaith	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - (Gogledd Iwerddon) - Gwirfoddoli	5546-22	601/3658/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) – Gweithio drosoch chi'ch Hun	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Lefel 1 Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd - (Gogledd Iwerddon) - Datblygiad Personol	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Paratoi ar gyfer Cyflogaeth	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Llwyddo yn y Gwaith	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Dull o Fyw	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	5546-32	601/3536/0
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Gwirfoddoli	5546-03	601/3627/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Gweithio drosoch chi'ch Hun	5546-03	601/3630/3
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Llwyddo yn y Gwaith	5546-03	601/3633/9
City & Guilds Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol - Datblygiad Personol	5546-23	601/3654/3
<b>Dyfarniadau Estynedig</b>	5546-23	601/3659/5
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)	5546-23	601/3664/9
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd		
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd		
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) (Mynediad 3)		
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)City & Guilds Dyfarniad		

<u>Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)</u>		
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol ((Mynediad 3)	5546-33	601/3671/6
City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-33	601/3724/1

---

City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-33	601/3637/6
--	---------	------------

---

### **Tystysgrifau**

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)	5546-04	601/3641/8
---	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-04	601/3643/1
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-04	601/3645/5
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)	5546-24	601/3660/1
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)	5546-24	601/3665/0
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol ((Mynediad 3)	5546/34	601/3533/5
---	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-34	601/3535/9
---	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-34	601/3532/3
---	---------	------------

---

### **Tystysgrifau estynedig**

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)	5546-05	601/3642/X
---	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-05	601/3644/3
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-05	601/3646/7
--	---------	------------

---

City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3) (Gogledd Iwerddon)	5546/25	601/3656/x
---	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)	5546-25	601/3661/3
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon)	5546-25	601/3666/2
--	---------	------------

---

City & Guilds Dyfarniad Estynedig Lefel Mynediad mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol ((Mynediad 3)	5546-35	601/3672/8
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-35	601/3640/6
--	---------	------------

---

City & Guilds Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Personol a Chymdeithasol	5546-35	601/3636/4
--	---------	------------

---

### **Diplomâu**

---

City & Guilds Diploma Lefel Mynediad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)	5546-06	601/3561/X
---	---------	------------

---

---

City & Guilds Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-06	601/3559/1
City & Guilds Diploma Lefel 2 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	5546-06	601/3560/8

---

**Dylid darllen y llawlyfr unedau hwn ynghyd â'r Llawlyfr Cymwsterau Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu mewn Cyflogadwyedd (5546) i Ganolfannau, sy'n cynnwys yr wybodaeth bwysig ganlynol:**

- cyflwyniad i'r cymwsterau
- gofynion y ganolfan
- strwythur y cymwsterau
- cynllunio a chyflwyno cyrsiau.

### **Arweiniad i ganolfannau**

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau hefyd yn cynnwys arweiniad i gefnogi canolfannau. Mae'r arweiniad yn ymddangos yn yr adrannau canlynol:

- Diffiniad o ganlyniadau - caiff y canlyniadau dysgu eu diffinio lle bydd hyn yn ychwanegu gwerth.
- Esboniad o feini prawf ac enghreifftiau o dystiolaeth – caiff y meini prawf asesu eu hesbonio, a, lle maen nhw'n ychwanegu gwerth at yr arweiniad, caiff enghreifftiau o dystiolaeth eu darparu.
- Sut mae cyflwyno'r uned hon?– Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar sut gellir cyflwyno'r uned, gan gynnwys argymhellion ar adnoddau fel gwefannau.

### **Cyfuniadau gwaharddedig**

Mae unedau sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol o rah cynnwys yn gyfuniadau gwaharddedig. Gall dysgwyr gymryd unedau sy'n waharddedig a byddant yn ymddangos ar Gredydau Tystysgrif Uned y dysgwr (CUC), ond ni fydd y ddwy uned/yr holl unedau gwaharddedig yn cyfrif tuag at y credydau angenrheidiol ar gyfer cymhwyster.

Er enghraifft, mae ar ddysgwr sy'n cymryd Tystysgrif Mynediad 3 angen 15 credyd o ddewis o unedau dewisol. Mae Uned 306 Mynediad 3, Ymgeisio am swydd, wedi'i gwahardd gydag Uned 462 Lefel 1, Ymgeisio am swydd. Os yw'r dysgwyr yn cymryd y ddwy uned hyn byddant yn casglu 2 greddyd yn unig ohonynt tuag at eu cymhwyster.

Os yw canolfan am hawlio dwy (neu ragor) o unedau gwaharddedig i ddysgwr, cynghorir iddynt hawlio'r uned sy'n fwyaf angenrheidiol i'r rheolau cyfuno ar gyfer y cymhwyster ac yna aros tan iddynt dderbyn tystysgrif cyn hawlio'r uned(au) gwaharddedig eraill.

**Os yw canolfan yn hawlio dwy (neu ragor) o unedau gwaharddedig yr un pryd, ni chânt eu cydnabod ac felly nid ystyrir y bydd y dysgwr wedi ennill y cymhwyster.**



## 2 Unedau

### **Strwythur Unedau**

Mae gan bob un o'r unedau'r canlynol:

- Rhif cyfeirio City & Guilds
- Rhif achredu uned (RHAU)
- teitl
- lefel
- gwerth credydau
- oriau dysgu dan arweiniad
- nod yr uned
- gwybodaeth ar asesu
- canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- nodiadau canllaw.

<b>RHAU:</b>	F/501/6878
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i gynllunio ar gyfer dilyniant trwy ddeall eu rhaglen a'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael a thrwy allu adnabod cryfderau personol ac adeiladu arnynt.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>201</b> Mynediad 2 Cynllunio ar gyfer dilyniant</li> <li>• <b>301</b> Mynediad 3 Cynllunio ar gyfer dilyniant</li> <li>• <b>501</b> Lefel 2 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall eu rhaglen astudio neu hyfforddi eu hunain
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio beth mae e/hi am ei gyflawni erbyn diwedd y rhaglen astudio neu hyfforddi 1.2 disgrifio beth mae angen iddo ef/iddi hi ei wneud er mwyn dilyn y rhaglen 1.3 adnabod rheolau a rheoliadau'r ganolfan sy'n effeithio arno/arni fel dysgwr.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gwybod am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddaperir yn y man astudio neu hyfforddi
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio'r cyfleusterau a ddarperir yn y man astudio neu hyfforddi 2.2 amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. adnabod cryfderau personol (sgiliau, rhinweddau ac agweddau) angenrheidiol ar gyfer dysgu a gweithio

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 adnabod rhinweddau ac agweddau cadarnhaol angenrheidiol ar gyfer astudio a gweithio
- 3.2 amlinellu ei g/chryfderau personol ei hun
- 3.3 rhoi enghraifft o rywbeth sy'n perthyn i ddysgu a gweithio y mae e/hi wedi teimlo'n dda amdano a rhywbeth y mae e/hi'n teimlo'n hyderus wrth ei wneud.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. gweithredu cynllun ar gyfer hunan wella

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 adnabod meysydd gwella
- 4.2 nodi targedau realistig
- 4.3 paratoi cynllun gweithredu neu gontract i gwrdd â safonau
- 4.4 nodi trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **ddiffinio** beth mae angen iddo e/iddi hi ei gyflawni o ran cymwysterau, profiad a/neu rôl swydd. Gall tystiolaeth gynnwys datganiad dysgwr.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio** beth mae angen iddo e/iddi hi ei wneud i ddilyn y rhaglen e.e. mynychu sesiynau yn ôl amserlen, cwblhau tasgau gosod.

Gall tystiolaeth gynnwys: datganiad dysgwr neu ddogfennau wedi'u hanodi e.e. cynllun dysgu unigol (CDP/ILP), cytundeb hyfforddi, amserlen, cynllun gweithredu.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr **nodi'r** rheolau a'r rheoliadau sy'n effeithio arno e / arni hi fel dysgwr. Gall tystiolaeth gynnwys llawlyfr myfyriwr wedi'i anodi a phecyn cynefino ond ni fydd llawlyfr neu becyn cyflwyno heb ei anodi neu heb dystiolaeth bellach yn ddigonol.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio**'r adnoddau sydd wedi'u darparu (e.e. llyfrgell, TG, ffreutur, meithrinfa).

Ar gyfer 2.2, mae angen i'r dysgwr **amlinellu**'r gefnogaeth sydd ar gael (e.e. gallai cefnogaeth fewnol fod yn arweiniad tiwtor a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr a gallai cefnogaeth allanol fod yn wasanaethau Connexions a Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (GCA/IAG)).

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 a 2.2 gynnwys datganiad dysgwr wedi'i gefnogi gan ddogfennaeth wedi'i hanodi neu ei hamlygu.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr **nodi** ystod o rinweddau ac agweddau (e.e. bod yn onest, yn brydlon, yn gydwybodol, rhoi sylw i fanylion, bod yn gwrtais, gweithio'n galed, bod wedi'i gymell). Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â rhinweddau ac agweddau'n gyffredinol ac nid yw'n benodol i'r dysgwr unigol. Nid oes angen i'r dysgwr wahaniaethu rhwng rhinweddau ac agweddau.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr **amlinellu** ei ch/gryfderau ei hun (sgiliau, nodweddion ac agweddau). Nid oes angen i'r dysgwr wahaniaethu rhwng sgiliau, rhinweddau ac agweddau.

3.3 mae angen i'r dysgwr **roi enghraifft** o rywbeth sy'n perthyn i ddygu neu weithio y mae e/hi wedi teimlo'n dda amdano (e.e. cwblhau tasg neu weithgaredd yn llwyddiannus) a rhywbeth y mae e/hi'n teimlo'n hyderus yn ei wneud (e.e. ateb y ffôn, cwrdd â phobl newydd, defnyddio til).

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 gynnwys datganiad dysgwr/rhestr neu recordiadau sain/fideo o drafodaeth grŵp neu unigol.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr ystyried beth mae e/hi'n gallu gwneud ar hyn o bryd er mwyn **adnabod** meysydd lle mae angen iddo/iddi wella. Dylai dysgwr ddewis meysydd ar gyfer eu datblygiad eu hunain (e.e. sgiliau cyfathrebu, prydlondeb, ymddygiad priodol ar gyfer y gweithle / man astudio).

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr **nodi** targedau realistig e.e. dangos sgiliau gwrando sgiliau effeithiol, cyrraedd yn brydlon am bum diwrnod. Dylai'r targedau fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwyr, yn realistig ac wedi'u clymu wrth amser.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r dysgwr **baratoi** cynllun gweithredu neu gytundeb i gwrdd â'r targedau a nodwyd yn 4.2. Dylai'r dysgwr restru gweithgareddau addas. Er enghraifft, gallai datblygu gweithgareddau gwrando gynnwys gwrando am ystyr, ymarfer peidio â thorri ar draws/ymatebion priodol mewn chwarae rôl, arsylwi ymddygiad priodol ar fideo, ymarfer y sgil gyda ffrindiau a'r teulu. Gallai gweithgareddau i wella prydlondeb ddefnyddio cloc larwm, gwirio amserlenni bws/trên a chynllunio o flaen llaw. Dylai person priodol gytuno ar y cynllun. Gallai hyn fod yn aseswr, yn diwtor, yn oruchwyliwr neu'n berson priodol arall.

Ar gyfer 4.4 mae angen i'r dysgwr **nodi** trefniadau ar gyfer adolygu'r cynllun. Mae hyn yn debygol o gynnwys person, lle, dyddiad ac amser.

Mae tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.4 yn debygol o fod yn gynllun gweithredu ysgrifenedig, manwl.

## Uned 402: Rheoli cyllid personol

<b>RHAU:</b>	T/506/2708
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o sut i reoli cyllid personol
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>202</b> Mynediad 2 Cyllid personol</li><li>• <b>302</b> Mynediad 3 Cyllid personol</li><li>• <b>518</b> Lefel 2 Rheoli cyllid personol</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall ffynonellau incwm a chostau
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod <b>ffynonellau incwm</b> 1.2 rhoi enghreifftiau o sut gall <b>arian</b> gael ei dderbyn 1.3 adnabod amrywiaeth o <b>gostau</b> 1.4 rhoi enghreifftiau o sut gall <b>taliadau</b> gael eu gwneud.

<b>Cwmpas</b>
1.1 <b>ffynonellau incwm</b> yn cynnwys taliadau budd-dal, cyflogau, grantiau, arian gan rieni/gofalwyr. 1.2 <b>arian</b> yn cynnwys arian parod, sieciau, trosglwyddiadau BAC. 1.3 <b>costau</b> yn cynnwys rhent, ffôn, dillad, tanwydd /teithio, adloniant, bwyd. 1.4 <b>taliadau</b> yn cynnwys pwrcasiadau a chostau cyson.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gwybod sut i leihau gwariant
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod y problemau sy'n gallu digwydd os bydd gwariant yn fwy nag <b>incwm</b>

2.2 disgrifio ffyrdd o leihau **gwariant**.

### **Cwmpas**

2.1 **incwm** yw'r holl symiau ariannol sy'n cael eu derbyn.

2.2 **gwariant** yw'r holl symiau ariannol sy'n cael eu gwario.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall sut i gynllunio ar gyfer cyllideb bersonol

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 rhestru ei ffynonellau **incwm** ei hun

3.2 rhestru ei ffynonellau **costau** ei hun

3.3 cynhyrchu cynllun **cyllideb** personol

3.4 adolygu cynllun **cyllideb** personol.

### **Cwmpas**

3.1 **incwm** yw'r holl symiau ariannol sy'n cael eu derbyn.

3.2 **costau** yn cynnwys rhent, ffôn, dillad, tanwydd /teithio, adloniant, bwyd.

3.3 a 3.4 **cyllideb** yw'r cofnod o'r holl incwm a gwariant.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu adnabod y cynhyrchion sy'n cael eu darparu gan sefydliadau ariannol

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 nodi **sefydliadau ariannol**

4.2 adnabod cynhyrchion sy'n cael eu cynnig gan **sefydliadau ariannol**.

### **Cwmpas**

4.1 a 4.2 **sefydliadau ariannol** yw'r sefydliadau sy'n cynnig arian ar fenthyg neu ffyrdd o gynilo arian.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

5. deall manteision ac anfanteision benthycia arian

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

5.1 disgrifio manteision **benthycia**

5.2 disgrifio anfanteision **benthycia**.

### **Cwmpas**

5.1 a 5.2 mae **benthycia**'n cynnwys benthycia anffurfiol oddi wrth ffrindiau a pherthnasau a threfniadau mwy ffurfiol fel cardiau credyd, gorddfrafft, benthyciadau a benthyciadau diwrnod cyflog.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

6. deall sut i gael cymorth wrth reoli ei arian ei hun
--

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

6.1 adnabod <b>sefydliadau</b> sy'n gallu helpu gyda phroblemau ariannol.
---

<b>Cwmpas</b>
---------------

6.1 <b>sefydliadau</b> yn cynnwys cymorth lleol a chenedlaethol.
--

## Uned 402: Rheoli cyllid personol

### Gwybodaeth ategol

#### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** ffynonellau incwm e.e. cyflogau, buddsoddiadau, budd-daliadau'r wladwriaeth, arian gan rieni /gofalwyr, grantiau a benthyciadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sut gall arian gael ei dderbyn e.e. arian, siec, drafft bancwyr, trosglwyddiad bancio rhyngwryd, Gwasanaeth Clirio Awtomeiddiedig Bancwyr (BACS), tocynnau talu, cerdyn rhodd arian. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **adnabod** amrywiaeth o gostau e.e. biliau gwasanaethau, rhent, morgais, bwyd, teithio, tanwydd, adloniant, tanysgrifiadau, ffôn, dillad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sut mae gwneud taliadau e.e. archebion sefydlog, debyd uniongyrchol, BACS, pay-pal, siec, cerdyn credyd/debyd, arian parod, swyddfa'r post, yn y banc. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** problemau sy'n gallu digwydd os yw'r gwariant yn uwch nag incwm, e.e. mynd i ddyled, colli cartref, problemau cyfreithiol, straen, salwch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** ffyrdd o leihau gwariant. e.e. cyllidebu, blaenoriaethu gwariant, deall y gwahaniaeth rhwng eitemau hanfodol ac anhanfodol, cynilo am bwrcasiadau mawr, chwilio am gyllido 0%. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **restru** ei ffynonellau incwm ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **restru** ei ffynonellau costau ei hun. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **gynhyrchu** cynllun cyllideb personol e.e. dros gyfnod o amser gyda dyddiadau, disgrifiad o incwm a gwariant, cynilion, is-gyfansymiau a chyfansymiau. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr /cynllun ysgrifenedig (gall gael ei ysgrifennu gan rywun arall).

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **adolygu** cynllun cyllideb personol e.e. edrych ar y cynllun yn rheolaidd i weld ydy e'n gweithio ac yn cael ei ddilyn a dylai gynnwys gwneud newidiadau lle mae angen. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn gynllun wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** sefydliadau ariannol e.e. banciau, cymdeithasau adeiladu, swyddfa'r post, cwmnïau buddsoddi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** cynhyrchion sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau ariannol e.e. benthyciadau - morgeisi, gwelliannau'r cartref, ceir, mopedau, yswiriant - ar gyfer teithio, bywyd, ffonau symudol, anifeiliaid anwes, peiriant arian parod, cyfrifon cynilo, bancio rhyngwrwyd, cyfraddau llog cystadleuol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** manteision benthycia e.e. dechrau busnes, i helpu i brynu eitemau drud/mawr, i adeiladu hanes credyd, i gyllido pwrcasiadau–dull o fyw tymor hir - cartref, cerbyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 5.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** anfanteision benthycia e.e. cyfraddau llog uchel, mynd i ddyled, methdaliad, beilliau, effaith ar iechyd, torri perthynas teulu, tynnu sylw oddi wrth waith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 6.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** sefydliadau sy'n gallu helpu gyda phroblemau ariannol e.e. banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, Canolfannau Cynghori (CAB), sefydliadau gwirfoddol, Y Gwasanaeth Cyngor Ariannol, Elusen Dyled StepChange, Llinell ddyled Genedlaethol, y Sefydliad Cyngor ar Ddyled, Cristnogion yn erbyn Tlodi, Cyngor Cyfreithiol Sifil, Shelter, Llinell Ddyled Busnesau, Debt Action NI, Gwasanaeth Hawliau Tai. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

<b>RHAU:</b>	K/501/6891
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	15
<b>Nod:</b>	Nod yr uned yw helpu'r dysgwr i ddatblygu ei sgiliau yn y gweithle, a'i ddealltwriaeth ohono, trwy baratoi, mynychu ac adolygu profiad gwaith.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Gallu paratoi ar gyfer ei b/phrofiad gwaith.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 awgrymu dewisiadau ar gyfer profiad gwaith addas neu gytuno ar hyn 1.2 gwneud cais neu baratoi ar gyfer profiad gwaith 1.3 nodi sut mae'r profiad gwaith hwn yn perthyn i'w nodau cyflogaeth a/neu ddysgu.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gallu cynllunio taith i'r gwaith
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 canfod amserau bws neu drên perthnasol (neu amserau math arall o gludiant cyhoeddus) 2.2 penderfynu pa fws neu drên (neu gludiant cyhoeddus arall) i'w ddal 2.3 gweithio allan yr amser y mae angen iddo/iddi adael y cartref er mwyn cyrraedd ar adeg addas.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. gallu dilyn gofynion yn ystod y profiad gwaith

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 mynychu profiad gwaith addas am leiafswm o bymtheg awr

3.2 gwisgo'n briodol

3.3 dilyn arfer gweithio diogel

3.4 dilyn cyfarwyddiadau i gwblhau tasgau

3.5 siarad â phobl eraill mewn dull priodol.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu cwblhau adolygiad profiad gwaith

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 adnabod beth aeth yn dda

4.2 disgrifio beth mae e/hi wedi'i ddysgu amdano/i i hun

4.3 esbonio sut mae e/hi'n mynd i adeiladu ar y profiad hwn.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Mae'r uned hon yn ffocysu ar fod y dysgwr yn gwneud cais/paratoi ar gyfer cymryd rhan weithredol mewn profiad gwaith.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **awgrymu** dewisiadau ar gyfer profiad gwaith addas neu gytuno ar hyn. Gall profiad gwaith gynnwys lleoliad neu swydd ran amser gyfredol. Gallai'r ganolfan ddod o hyd i'r lleoliad a'i gytuno gan yr ymgeisydd neu gallai'r ymgeisydd awgrymu'r lleoliad. Disgwylir i'r ymgeisydd fynychu profiad gwaith addas am leiafswm o 15 awr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod adolygu.

1.2 mae angen i'r ymgeisydd **wneud cais** neu **baratoi ar gyfer** profiad gwaith. Gall y cais gael ei wneud ar y ffôn, trwy ffurflen gais, neu gyfweiliad gan ddibynnu ar ofynion y lleoliad gwaith. Os caiff yr ymgeisydd y lleoliad heb unrhyw broses gais (real neu wedi'i hefelychu) dylent nodi sut maen nhw'n paratoi am y profiad gwaith e.e. ymchwil i'r lleoliad, math o gwmni. Os ydynt eisoes mewn cyflogaeth gallan nhw ddefnyddio tystiolaeth sy'n bod, gwneud cais am swydd ddychmygol neu nodi sut maen nhw wedi paratoi am y profiad gwaith hwn. Gall tystiolaeth fod yn ffurflen gais, llythyr, arsylwad aseswr, datganiad tyst neu recordiad sain.

1.3 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** sut mae'r profiad gwaith hwn yn perthyn i'w nodau cyflogaeth a/neu ddysgu. Gallai hyn fod yn uniongyrchol berthnasol e.e. maes cyflogaeth arfaethedig neu'n berthnasol yn anuniongyrchol e.e. profiad o weithle. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **ganfod** amserau bws neu drên perthnasol (neu amserau math arall o gludiant cyhoeddus). Gallai hyn fod trwy ddarllen amserlen bysus neu drenau neu trwy gael gwybodaeth trwy'r rhyngwrwyd neu'r ffôn. Os nad oes angen taith ar gludiant cyhoeddus ar y profiad gwaith, gall hyn fod yn weithgaredd efelychiannol ar gyfer lleoliad arall.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **benderfynu** pa fws neu drên (neu gludiant cyhoeddus arall) i'w ddal. Gall hyn fod yn weithgaredd efelychiannol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 a 2.2 fod yn amserlen wedi'i hamlygu, allbrint neu ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **weithio allan** yr amser y mae angen iddo/iddi adael y cartref er mwyn cyrraedd ar adeg addas. Os nad yw'r profiad gwaith yn ei gwneud yn ofynnol bod y dysgwr yn cynllunio taith, gall hyn fod yn weithgaredd efelychiannol ar gyfer lleoliad arall. Gall tystiolaeth ar gyfer 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **fynychu** profiad gwaith addas am leiafswm o bymtheg awr. Gall tystiolaeth fod yn ddalen amser neu'n ddatganiad tyst.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **wisgo'n briodol** ar gyfer y gweithle. Gall hyn gynnwys gwisgo dillad amddiffynnol. Gall tystiolaeth fod yn ffotograff, yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddilyn** arfer gweithio diogel. Dylai'r tiwtor/ darparwr profiad gwaith sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cwrdd. Dylai tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **ddilyn** cyfarwyddiadau i gwblhau tasgau yn y gweithle. Gall cyfarwyddiadau fod yn ysgrifenedig neu ar lafar. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer 3.5 mae angen i'r ymgeisydd **siarad** â phobl eraill yn y gweithle mewn dull priodol. Gall 'siarad' cynnwys iaith arwyddion lle mae hyn yn briodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad tyst neu'n arsylwad aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** beth aeth yn dda. Gall hyn gynnwys tasgau wedi'u cwblhau a sgiliau, rhinweddau neu agweddau wedi'u hadnabod a/neu wedi'u gwella e.e. cyrraedd y gwaith yn brydlon.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** beth mae e/hi wedi'i ddysgu amdano/i i hun e.e. gallu cyfathrebu â phobl sy'n anghyfarwydd, sy'n hoffi/ddim yn hoffi gweithio mewn lleoliad arbennig.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** sut mae e/hi'n mynd i adeiladu ar y profiad hwn e.e. gwella sgiliau penodol, gwneud cais am swyddi tebyg.

Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 i 4.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod adolygu.

<b>RHAU:</b>	R/506/2702
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	13
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a rôl adborth.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>304</b> Mynediad 3 Cyfathrebu effeithiol</li> <li>• <b>315</b> Mynediad 3 Cyfathrebu ysgrifenedig ar gyfer y gweithle</li> <li>• <b>322</b> Mynediad 3 Siarad effeithiol ar gyfer y gweithle</li> <li>• <b>504</b> Lefel 2 Cyfathrebu gyda phobl eraill yn y gweithle</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 nodi pwysigrwydd cyfathrebu llafar effeithiol 1.2 rhoi enghreifftiau o gyfathrebu llafar <b>priodol</b> ac <b>amhriodol</b> 1.3 nodi pwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau effeithiol 1.4 rhoi enghreifftiau o gyfathrebu di-eiriau <b>priodol</b> ac <b>amhriodol</b> .

<b>Cwmpas</b>
1.2 a 1.4 <b>priodol</b> – addas a derbyniol. 1.2 a 1.4 <b>amhriodol</b> - an <u>a</u> ddas ac annerbyniol.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. deall pwysigrwydd ymddygiad cadarnhaol a phriodol

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

2.1 rhoi enghreifftiau o ymddygiad cadarnhaol a phriodol

2.2 rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae ymddygiad cadarnhaol a phriodol yn bwysig.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall pwysigrwydd adborth

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 rhoi enghraifft o ddefnyddio adborth cadarnhaol

3.2 rhoi enghraifft o ddefnyddio adborth negyddol

3.3 nodi pwysigrwydd adborth **adeiladol**.

### **Cwmpas**

3.3. **adeiladol** - adborth sy'n gadarnhaol ac yn ddefnyddiol.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** pwysigrwydd cyfathrebu llafar effeithiol e.e. osgoi camddealltwriaeth, rhoi cyfarwyddiadau cywir, osgoi tramgwyddo, rhoi adroddiad cywir am rywbeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyfathrebu llafar priodol ac amhriodol e.e. bydd yn dibynnu ar y sefyllfa ond gall cynnwys, -priodol - cyfarwyddiadau clir, cwrtais a gyda pharch, defnydd o iaith gan gynnwys lefel, traw a thôn, didramgwydd; amhriodol - anfoesgar, rhegi, defnyddio bratiaith, gweiddi, sylwadau rhywiaethol neu oedraniaethol, iaith ymosodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** pwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau effeithiol e.e. yn cadarnhau beth sy'n cael ei ddweud mewn geiriau e.e. nodio pen wrth ddweud 'ie', gall gyfleu ystyr gwrthwynebol i'r hyn sy'n cael ei ddweud e.e. ysgwyd ysgwyddau neu argraff drist, cyfleu ystyr am gyflwr emosiynol, diffinio'r berthynas rhwng pobl, newid llif cyfathrebu e.e. arwyddo i ddweud wedi gorffen neu ddymuniad i ddweud rhywbeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyfathrebu di-eiriau priodol ac amhriodol e.e. bydd yn dibynnu ar y sefyllfa ond gallai gynnwys, -priodol - gwenu, amneidio, llaw i fyny i ofyn cwestiwn, cyfarwyddiadau, chwifio, amhriodol - ystumiau llaw anweddus, golwg anwybodus, dim cyswllt llygad, ochneidio, sylw wedi'i dynnu, tarfu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ymddygiad cadarnhaol a phriodol e.e. cwrtais, bod yn astud, cynorthwyol, dangos diddordeb, cyfeillgar, dangos parch e.e. ym mhob sefyllfa, yr holl amser, e.e. gwaith, astudio, catref, hamdden, cymdeithasol, personol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** pryd mae ymddygiad cadarnhaol a phriodol yn bwysig e.e. dylai fod ym mhob sefyllfa, yr holl amser neu gwaith, astudio, cartref, hamdden, cymdeithasol, personol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghraifft** o ddefnyddio adborth cadarnhaol e.e. gwaith - 'da iawn am gwblhau'r gwaith mewn amser record ac i safon uchel', astudio - 'mae eich gwaith cwrs wedi'i drefnu'n dda gyda gwaith ymchwil ardderchog', - 'diolch am roi'r gulch ymlaen, bu'n help mawr'. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr roi **enghraifft** o ddefnyddio adborth negyddol e.e. gwaith – mae eich gwaith yn isel ei safon ac mae'n cymryd rhy hir', astudio – 'mae eich ysgrifennu'n flêr ac nid oes llawer o feddwl wedi mynd i'r gwaith yma', cartref – mae eich ystafell yn llanast ac nid ydych yn gwneud dim i helpu'. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n ofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** pwysigrwydd adborth adeiladol e.e. gallu gwneud cynnydd/datblygu/dysgu, i gymell neu i aros gyda chymhelliad, i godi hunan-barch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

<b>RHAU:</b>	A/501/6880
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	24
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i allu adnabod a gwneud cais am swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>206</b> Mynediad 2 Ymgeisio am swydd</li> <li>• <b>306</b> Mynediad 3 Ymgeisio am swydd</li> <li>• <b>462</b> Lefel 1 Ymgeisio am swydd</li> <li>• <b>501</b> Lefel 2 Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau</li> <li>• <b>506</b> Lefel 2 Ymgeisio am swydd</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gallu dewis llwybr gyrfa addas
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhestru ffynonellau o gyngor ar arweiniad gyrfa 1.2 ymchwilio i ddewisiadau gyrfa 1.3 cytuno ar lwybr gyrfa addas.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gallu adnabod swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru ffynonellau gwybodaeth am swyddi gwag, rhaglenni hyfforddi neu gyrsiau 2.2 dod o hyd i swydd wag, rhaglen hyfforddi neu gwrs addas.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall sut i baratoi Curriculum Vitae

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 adnabod ei sgiliau, rhinweddau, profiad a'i gymwysterau ei hun
- 3.2 llunio Curriculum Vitae.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. deall sut caiff ymgeiswyr eu dewis ar gyfer cyfweiliad

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 disgrifio sut caiff ymgeiswyr eu dewis ar gyfer cyfweiliad am swydd, rhaglen hyfforddi neu gwrs.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

5. gallu gwneud cais am swydd, lleoliad hyfforddi neu gwrs

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 5.1 cael ffurflen gais. a/neu fanylion swydd
- 5.2 cwblhau'r cais.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

6. deall y broses gyfweld

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 6.1 rhestru pa anghenion y mae angen eu hystyried wrth baratoi am y cyfweiliad
- 6.2 arsylwi neu gymryd rhan mewn cyfweiliad real neu efelychiannol
- 6.3 rhoi enghreifftiau o arfer cyfweiliad effeithiol ac aneffeithiol

### Arweiniad a Thystiolaeth

Mae'r uned hon yn ffocysu ar fod y dysgwyr yn cynllunio gyrfa ac yn paratoi am gyfweiliad.

Dylai dysgwyr gael eu hannog i ystyried beth maen nhw am ei gael gan swydd neu gyfle hyfforddi. Pa mor bell maen nhw'n fodlon teithio? A oes oriau neu shifftiau penodol maen nhw am eu cael neu na allant eu gwneud? A fyddai'n well ganddynt hyfforddi neu astudio wrth weithio na a fyddai'n well ganddyn nhw ennill eu cymwysterau'n gyntaf? A fyddai'n well ganddynt weithio o dan do neu'r tu allan? Ydyn nhw am weithio gyda phobl?

Gellir trefnu ymweliadau â'r Gwasanaeth Cyngor Gyrfaoedd a/neu â chyflogwyr penodol, darparwyr hyfforddiant neu golegau. Gellir gwahodd siaradwyr allanol, fel pobl broffesiynol Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (IAG), i siarad â dysgwyr a thrafod eu cynlluniau unigol. Gallai cyflogwyr gynnig profiad cyfweld.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** ffynonellau o gyngor ac arweiniad gyrfa. Gallai'r rhain gynnwys pobl, sefydliadau a gwefannau.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **ymchwilio** i o leiaf ddau ddewis gyrfa.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **gytuno** ar lwybr gyrfa addas gyda pherson priodol e.e. tiwtor, goruchwyliwr, cynghorwr gyrfa.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd wedi'i lofnodi gan yr aseswr i gadarnhau cytundeb.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** ffynonellau gwybodaeth am swyddi gwag, rhaglenni hyfforddi neu gysiau e.e. cyfryngau lleol a chanolfan swyddi.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddod o hyd** i swydd wag, rhaglen hyfforddi neu gwrs perthnasol i'r llwybr gyrfa a ddewiswyd. Er enghraifft, gall swydd ran-amser gyfrannu at ddatblygiad sgiliau'r ymgeisydd. Gellid cyflwyno gwybodaeth ar gyfer ymgeisydd ar ffurf hwylus e.e. darnau o bapurau newydd neu wefannau, er y disgwylir i'r dysgwr nodi gwybodaeth berthnasol a nodi pam mae eu dewis yn un addas o ran y llwybr gyrfa a nodwyd yn 1.3.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 a 2.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** ei sgiliau, rhinweddau, profiad a'i gymwysterau ei hun. Gallai sgiliau gynnwys cyfathrebu yn effeithiol, rheoli amser, amldasgio, dilyn cyfarwyddiadau, gyrru. Gallai rhinweddau gynnwys bod yn onest, yn brydlon, yn gydwybodol, rhoi sylw i fanylion, bod yn gwrtais, gweithio'n galed. Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **lunio** Curriculum Vitae (CV) ond gall rhywun arall deipio hyn. Gall tystiolaeth ar gyfer 3.2 fod yn CV.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** 'r broses ddewis e.e. manylebau swydd, meini prawf dymunol a hanfodol, ffurflenni cais, CVau, mathau o gyfweliad, gwneud rhestr fer. Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r ymgeisydd **gael** ffurflen gais a/neu fanylion swydd. Gallai hyn fod yn ysgrifenedig, ar y ffôn, trwy'r rhyngwyd neu wyneb yn wyneb. Gall tystiolaeth fod yn ffurflen gais, manylion swydd neu ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r ymgeisydd **gwblhau'r** cais. Gall hyn fod yn ffurflen neu'n llythyr ond gall fod yn gais ar y ffôn. Gall tystiolaeth fod yn ffurflen neu lythyr cais wedi'u cwblhau neu ar gyfer cais ar y ffôn gall fod yn arsylwad aseswr neu'n recordiad sain.

Ar gyfer maen prawf 6.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** pa anghenion y mae angen eu hystyried wrth baratoi am y cyfweliad e.e. ymchwilio i'r swydd/cwrs/lleoliad a sefydliad y cwmni, ymchwilio i gludiant ac amserau, paratoi dillad ar gyfer y cyfweliad, ac ati. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer 6.2 mae angen i'r ymgeisydd **arsylwi** neu **gymryd rhan** mewn cyfweliad real neu efelychiannol. Gallai'r ymgeisydd gymryd rhan mewn cyfweliad real neu gyfweliad ymarfer. Fel arall, gallai'r ymgeisydd wyllo fideo neu chwarae rôl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad aseswr.

Ar gyfer 6.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi o leiaf ddwy enghraifft** o ymarfer cyfweld effeithiol ac o leiaf ddwy enghraifft o arfer cyfweliad aneffeithiol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad ymgeisydd.

<b>RHAU:</b>	K/505/4654
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	18
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw bod y dysgwr yn meithrin sgiliau cyfathrebu sylfaenol da sydd eu hangen ar gyfer cyfweliad. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael ei arwain trwy adfyfrio ôl-gyfweliad
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>307</b> Mynediad 3 Sgiliau cyfweld</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1 gwybod sut i baratoi ar gyfer cyfweliad
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: <ol style="list-style-type: none"> <li>1.1 ymchwilio: <ol style="list-style-type: none"> <li>a. y cwmni</li> <li>b. ei werthoedd</li> <li>c. ei effaith ar y gymuned</li> <li>ch. rôl y swydd</li> </ol> </li> <li>1.2 paratoi atebion i set benodol o gwestiynau sy'n debygol o gael eu gofyn yn y cyfweliad</li> <li>1.3 paratoi cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliad ar sail ymchwil</li> <li>1.4 disgrifio gwahanol <b>dechnegau cyfweliad</b></li> <li>1.5 disgrifio sut i geisio eglurder gan y cyfwelydd am y cwestiynau sy'n cael eu gofyn</li> <li>1.6 casglu unrhyw ddogfennau a all gael eu gofyn mewn cyfweliad</li> <li>1.7 disgrifio'r ffordd a'r dull o gludiant i'w gymryd i fynychu'r cyfweliad yn brydlon.</li> </ol>

<b>Cwmpas</b>
1.4 <b>technegau cyfweld</b> – ũnigol, grŵp, profi seicometrig, cyflwyniadau, prawf sgiliau.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. gallu cyflwyno a pherfformio'n dda mewn cyfweiliad

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 gwisgo'n briodol a dangos hylendid personol da ar gyfer cyfweiliad
- 2.2 defnyddio dull o gyfathrebu di-eiriau fel iaith y corff a mynegiant wyneb yn ystod y cyfweiliad
- 2.3 cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp
- 2.4 rhoi atebion clir, uniongyrchol i gwestiynau sy'n cael eu gofyn
- 2.5 paratoi cyfweiliad byr i'w ddefnyddio mewn cyfweiliad

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. gallu adolygu eu perfformiad eu hunain mewn cyfweiliad

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 disgrifio agweddau o'r cyfweiliad a aeth yn dda
- 3.2 disgrifio un agwedd o'r cyfweiliad nad aeth yn dda
- 3.3 cynllunio camau i wella perfformiad mewn cyfweiliadau yn y dyfodol.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf mae angen i'r dysgwr baratoi ar gyfer cyfweliad swydd real neu wedi'i efelychu trwy ymchwilio i'r cwmni.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr baratoi atebion i set benodol o gwestiynau sy'n debygol o gael eu gofyn yn y cyfweliad.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr baratoi cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweliad ar sail ymchwil.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio gwahanol dechnegau cyfweliad.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio sut i geisio eglurder gan y cyfwelydd am y cwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Ar gyfer 1.6 mae angen i'r dysgwr gasglu unrhyw ddogfennau y gellir gofyn amdany'n nhw mewn cyfweliad.

Ar gyfer 1.7 mae angen i'r dysgwr nodi'r ffordd a'r dull o gludiant maen nhw'n cynllunio eu cymryd i gyrraedd y cyfweliad yn brydlon. Os nad oes angen i'r dysgwr deithio i'r cyfweliad gallen nhw gynllunio ffordd/amserau i leoliad arall.

Ar gyfer meini prawf 2.1 i 2.4 mae angen i'r dysgwr gymryd rhan mewn cyfweliad real neu efelychiannol.

Ar gyfer maen prawf 2.5 rhaid i'r dysgwr baratoi cyfweliad 3-5 munud a gallai hyn gael ei seilio ar gyflawniadau, hoffterau neu wedi'i seilio ar yr hyn y gofynnodd y cyflogwr amdano.

Ar gyfer meini prawf 3.1 a 3.2 mae angen i'r dysgwr adolygu eu perfformiad yn ystod cyfweliad real neu efelychiannol trwy ystyried beth aeth yn dda neu beth nad aeth gystal.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr gynllunio camau i wella perfformiad mewn cyfweliadau yn y dyfodol.

<b>RHAU:</b>	J/506/2731
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ganfod sut i wneud dewisiadau am y ffyrdd mwyaf priodol i chwilio am swyddi a'r mathau o swyddi mwyaf priodol i chwilio amdanyn nhw, ar sail dealltwriaeth o'u sgiliau a'u gallu eu hunain.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>308</b> Mynediad 3 Chwilio am swydd</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn:
1. gallu ymchwilio i gyfleoedd swydd
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu:
1.1 disgrifio gwahanol adnoddau i ddod i wybod am wybodaeth am swyddi
1.2 disgrifio rolau a swyddogaethau sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau cyflogaeth
1.3 defnyddio adnoddau i ymchwilio i gyfleoedd gwaith
1.4 disgrifio sut i ymuno â systemau hysbysebu swyddi gwahanol sefydliadau.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn:
2. gallu nodi swyddi gwag addas
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu:
2.1 rhestru elfennau allweddol hysbysebion swydd
2.2 tynnu allan wybodaeth berthnasol o hysbysebion swydd
2.3 cyfateb sgiliau a gofynion personol sgiliau i swyddi gwag.

### **Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio gwahanol adnoddau sydd ar gael iddyn nhw i ddod i wybod am wybodaeth am swydd. Gallai hyn gynnwys: asiantaethau recriwtio, canolfannau gwaith, gwefannau cwmnïau, cyswllt uniongyrchol â chwmni.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio rolau a swyddogaethau sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau cyflogaeth.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr ddefnyddio adnoddau i ymchwilio i gyfleoedd gwaith.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio sut i ymuno â systemau hysbusebu swyddi gwahanol sefydliadau.

Gallai swyddi fod yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

Ar gyfer meini prawf 2.1 i 2.3 disgwylir i'r dysgwr gymryd rhan weithredol wrth gyfateb eu sgiliau a'u cyflawniadau eu hunain i amrywiaeth o swyddi.

<b>RHAU</b>	F/505/4658
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	16
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen er mwyn mynd ymlaen mewn gyrfa sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Bydd y dysgwr hefyd yn dod yn gyfarwydd â gwahanol fathau o adnoddau ac arweiniad dilyniant gyrfa a'r dewisiadau gwaith neu astudio maen nhw'n eu cynnig
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pwysigrwydd dilyniant gyrfa
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1. esbonio pwysigrwydd dilyniant gyrfa.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall gwybodaeth, cynghorion ac arweiniad sydd ar gael ar gyfer datblygu gyrfa
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod ffynonellau gwybodaeth am ddilyniant gyrfa, cynghorion ac arweiniad 2.2 Adnabod gwahanol ddewisiadau gyrfa, cwrs a hyfforddiant o ffynonellau gwybodaeth, cyngor ar arweiniad sydd ar gael.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. deall sgiliau a rhinweddau sydd eu hangen i fynd ymlaen mewn gyrfa

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 rhestru **sgiliau trosglwyddadwy**, rhinweddau a phrofiad angenrheidiol i ddatblygu gyrfa
- 3.2 adolygu eu **sgiliau trosglwyddadwy**, eu rhinweddau a'u profiad eu hunain
- 3.3 adnabod meysydd gwaith neu astudiaeth a allai fod fwyaf addas i'w **sgiliau trosglwyddadwy**, rhinweddau neu brofiad eu hunain.

—

### Cwmpas

3.1, 3.2 a 3.3 **sgiliau trosglwyddadwy** - yw'r sgiliau y gellir eu defnyddio ar draws amrywiaeth o swyddi a diwydiannau gwahanol e.e. cyfathrebu, rhifedd, TGCh, rheoli amser yn dda.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu cynllunio ar gyfer datblygu gyrfa

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 adnabod nodau tymor byr a fydd yn eu helpu gyda dilyniant gyrfa
- 4.2 datblygu cynllun dilyniant gyrfa.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr esbonio pwysigrwydd dilyniant gyrfa.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr adnabod ble i ganfod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am ddilyniant gyrfa.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr adnabod gwahanol ddewisiadau gyrfa, cwrs a hyfforddiant o ffynonellau gwybodaeth, cyngor ar arweiniad sydd ar gael.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr restru sgiliau trosglwyddadwy, rhinweddau a phrofiad angenrheidiol i ddatblygu gyrfa.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr adolygu eu sgiliau trosglwyddadwy, eu rhinweddau a'u profiad eu hunain.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr adnabod meysydd gwaith neu astudiaeth a allai fod fwyaf addas i'w sgiliau trosglwyddadwy, rhinweddau neu brofiad eu hunain.

Ar gyfer meini prawf 4.1 i 4.2 rhaid i'r dysgwr nodi'r gweithgareddau sydd eu hangen i weithio tuag at nodau tymor byr ac adnabod graddfeydd amser a dyddiadau terfyn i gyflawni'r nod.

<b>RHAU:</b>	L/506/2732
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	26
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i wahanol risgiau i ddiogelwch personol
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall gwahanol fathau o risg i ddiogelwch personol
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod meysydd risg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol 1.2 adnabod risgiau cysylltiedig ag alcohol 1.3 adnabod risgiau cysylltiedig â chyffuriau 1.4 adnabod risgiau cysylltiedig â gweithgaredd rhywiol 1.5 nodi risgiau cysylltiedig â defnyddio <b>cyfryngau cymdeithasol</b> 1.6 nodi risgiau cysylltiedig wrth ddefnyddio'r Rhyngwrld.

<b>Cwmpas</b>
1.5 <b>cyfryngau cymdeithasol</b> – Facebook, Trydar / Twitter, YouTube, ystafelloedd sgwrsio, fforymau, gwefannau trefnu cyfarfod.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall ffyrdd o leihau risgiau i ddiogelwch personol
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod ffyrdd o leihau risgiau i <b>wahanol grwpiau</b> 2.2 adnabod ffyrdd o leihau risgiau mewn sefyllfaoedd cymdeithasol 2.3 adnabod ffyrdd o gadw hunaniaeth a gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

-

<b>Cwmpas</b>
2.1 <b>gwahanol grwpiau</b> – plant, pobl ifanc, pobl hŷn, oedolion agored i berygl.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. gwybod am ffynonellau cefnogaeth

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 adnabod gwahanol fathau o **gefnogaeth** sydd ar gael
- 3.2 adnabod sefyllfaoedd pan fydd angen cefnogaeth
- 3.3 adnabod y gwahanol ffyrdd o gael at gefnogaeth
- 3.4 esbonio manteision ceisio cefnogaeth.

### **Cwmpas**

3.1 **cefnogaeth** – elusennau, athrawon, rhieni, cyfoedion, grwpiau cefnogaeth.

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr adnabod meysydd risg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr adnabod risgiau cysylltiedig ag alcohol.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr adnabod risgiau cysylltiedig â chyffuriau.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr adnabod risgiau cysylltiedig gweithgaredd rhywiol.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr nodi risgiau cysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Ar gyfer 1.6 mae angen i'r dysgwr nodi risgiau cysylltiedig â defnyddio'r rhyngrwyd .

Ar gyfer meini prawf 1.5 ac 1.6 mae angen i'r dysgwr ystyried twyll-ddenu, camwybodaeth, seibr-fwlio, cysgod-ganlyn, gwe-dwylo, gwe-rwydo.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr adnabod ffyrdd o leihau risgiau i wahanol grwpiau.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr adnabod ffyrdd o leihau risgiau mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr adnabod ffyrdd o gadw hunaniaeth a gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr adnabod gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr adnabod sefyllfaoedd pan fydd angen cefnogaeth.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr adnabod y gwahanol ffyrdd o gael at gefnogaeth.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr esbonio manteision ceisio cefnogaeth.

<b>RHAU:</b>	L/505/4663
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	25
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddatblygu sgiliau gweithio tîm, trwy ddeall gwerthoedd, rolau a gweithdrefnau timau a gallu gweithio gyda phobl eraill tuag at gyflawni nodau a rennir.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>311</b> Mynediad 3 Gweithio fel rhan o dîm</li> <li>• <b>426</b> Lefel 1 Cyfrannu at dîm</li> <li>• <b>522</b> Lefel 2 Sgiliau gweithio tîm</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pam mae gwaith tîm effeithiol yn bwysig
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio beth sy'n gwneud tîm effeithiol 1.2 disgrifio manteision gwaith tîm effeithiol.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall gwerthoedd a nodau tîm
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru gwahanol fathau o dimau 2.2 adnabod gwerthoedd a nodau tîm 2.3 disgrifio ffyrdd y gall aelodau tîm weithio gyda'i gilydd yn effeithiol 2.4 disgrifio dull o osgoi gwrthdaro mewn tîm 2.5 adnabod dulliau o wneud penderfyniadau tîm.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall rolau y gall pobl eu cymryd mewn tîm

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 rhoi enghreifftiau o **wahanol rolau**
- 3.2 nodi'r effaith a gaiff y rolau hyn ar y ffordd y mae tîm yn gweithio
- 3.3 nodi'r effaith a gaiff y rolau hyn ar aelodau'r tîm.

### **Cwmpas**

3.1 **gwahanol rolau** – ffurfiol, anffurfiol.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. deall sut i gyflawni nod tîm

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 disgrifio nod cyffredinol tîm
- 4.2 paratoi cynllun i gyflawni nod tîm
- 4.3 disgrifio eu rôl eu hunain wrth gyflawni'r nod
- 4.4 disgrifio rolau pobl eraill wrth gyflawni'r nod
- 4.5 rhestru gweithgareddau, cerrig milltir a llinellau amser
- 4.6 adnabod cefnogaeth ac adnoddau sydd eu hangen i helpu i weithio tuag at y nod.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

5. gallu gweithredu ac adolygu'r cynllun

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 5.1 dilyn cynllun ac adolygu cynnydd yn gyson
- 5.2 awgrymu gwelliannau a newidiadau i'r cynllun.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

6. gallu adfyfrio ar effeithiolrwydd y cynllun

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 6.1 myfyrio ar effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun wrth helpu i gyflawni'r nod a gytunwyd
- 6.2 disgrifio beth aeth yn dda a beth nad aeth yn dda.

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio beth sy'n gwneud tîm effeithiol.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio manteision gwaith tîm effeithiol.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr restru gwahanol fathau o dimau.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr adnabod gwerthoedd a nodau tîm.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio ffyrdd y gall aelodau tîm weithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio dull o osgoi gwrthdaro mewn tîm.

Ar gyfer 2.5 mae angen i'r dysgwr nodi dulliau o wneud penderfyniadau tîm.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr roi enghreifftau o wahanol rolau.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr adnabod yr effaith a gaiff y rolau hyn ar y ffordd y mae tîm yn gweithio.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr adnabod yr effaith a gaiff y rolau hyn ar aelodau'r tîm.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio nod cyffredinol tîm.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr baratoi cynllun i gyflawni nod tîm.

Ar gyfer 4.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio eu rôl eu hunain wrth gyflawni'r nod.

Ar gyfer 4.4 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio rôl pobl eraill wrth gyflawni'r nod.

Ar gyfer 4.5 mae angen i'r dysgwr restru gweithgareddau, cerrig milltir a llinellau amser.

Ar gyfer 4.6 mae angen i'r dysgwr adnabod y gefnogaeth a'r ffynonellau angenrheidiol i weithio tuag at y nod.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r dysgwr ddilyn cynllun ac adolygu cynnydd yn gyson.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r dysgwr awgrymu gwelliannau a newidiadau i'r cynllun.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r dysgwr ddilyn cynllun ac adolygu cynnydd yn gyson.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r dysgwr awgrymu gwelliannau a newidiadau i'r cynllun.

# Uned 412      Cyfrannu at eu byw iach eu hunain

<b>RHAU:</b>	D/504/8169
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Er mwyn dechrau deall effeithiau dull iach o fyw, mae rhaid i ddysgwr adnabod a gallu dylanwadu ar eu dull o fyw. Bydd ganddyn nhw wedyn well dealltwriaeth o sut mae bwyd, ymarfer a gwneud gwahanol weithgareddau'n cyfrannu at ddulliau byw iach y rhai sydd o'u cwmpas a bydd ganddyn nhw sail gadarn yn ei lle i ddylanwadu ar y rhai yn eu gofal a'r rhai o'u cwmpas.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>312</b> Mynediad 3 Byw'n iach</li><li>• <b>514</b> Lefel 2 Byw'n iach</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pwysigrwydd dilyn dull iach o fyw
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio elfennau allweddol dull iach o fyw 1.2 esbonio pam mae dull iach o fyw'n bwysig.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. disgrifio sut maen nhw'n cyfrannu at eu dull iach o fyw eu hunain
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 dewis a chynnal gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddull iach o fyw.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. adolygu gweithgareddau a ymgwymerir i gynnal dull iach o fyw

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 cynnal adolygiad o'u gweithgareddau
- 3.2 disgrifio beth aeth yn dda a meysydd gwella
- 3.3 disgrifio sut mae'r gweithgareddau wedi gwella eu dull o fyw.
- 3.4 awgrymu gweithgareddau pellach a allai gyfrannu at ddull iach o fyw.

# Uned 412      Cyfrannu at eu byw iach eu hunain

## Gwybodaeth ategol

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio** elfennau allweddol dull iach o fyw. Gallai hyn gynnwys nifer o bethau maen nhw eisoes yn eu gwneud neu bethau y gallen nhw eu gwneud e.e. bwyta deiet cytbwys, ymarfer yn gyson. Gellid cynhyrchu syniadau trwy drafodaeth grŵp cyhyd â bod cyfraniad y dysgwr yn cael ei gofnodi'n glir.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **esbonio** pam mae dull iach o fyw'n bwysig. Gallai hyn dynnu ar yr elfennau a ddisgrifir yn 1.1 er bod angen i'r dysgwr fod yn glir pam mae'r rhain yn bwysig.

Ar gyfer maen prawf 2.1 a 2.2, mae angen i'r dysgwr **ddewis a chyflawni** o leiaf ddau weithgaredd priodol sy'n cyfrannu at ddull iach o fyw, e.e. bwyta pum cyfran o ffrwythau/llysiau, mynd ar feic i'r gwaith/coleg. Bydd yr uned o'r budd mwyaf i'r dysgwr os yw hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â gweithgareddau a ddisgrifir yn 1.1.

Nid oes ar y dysgwr angen ond tystiolaeth yn **cyflawni** pob gweithgaredd unwaith, er y bydd yn debygol, er mwyn adolygu'r gweithgareddau (ar gyfer 3.1 - 3.4) y byddai angen i'r gweithgareddau gael eu hailadrodd/cynnal.

Ar gyfer 3.1 a 3.2 mae angen i'r dysgwr **adolygu** gweithgareddau y maen nhw wedi'u gwneud. Nid oes rhaid i'r adolygiad fod yn hir, ond rhaid iddo gynnwys disgrifiad o beth aeth yn dda a nodi meysydd i'w gwella. Er y byddai adolygiad ysgrifenedig (efallai'n defnyddio profforma) yn un ffordd o ddelio â'r adolygiad, gallai hefyd fod ar ffurf trafodaeth un ac un neu'n drafodaeth grŵp cyhyd â bod cyfraniadau'r dysgwr ei hun wedi'u cofnodi'n glir

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr hefyd **ddisgrifio** sut mae'r gweithgareddau wedi gwella eu dull o fyw. Mae hi'n bwysig sylweddoli bod yr aseiad yn ymwneud â hunanymwybyddiaeth y dysgwr yn hytrach nag ar faint o effaith a gafodd y gweithgaredd. Mewn rhai achosion gall yr effaith fod yn fach iawn ond mae hyn yn dderbyniol cyhyd â bod y dysgwr yn adnabod ac yn cydnabod hyn

Ar gyfer 3.4 rhaid i'r dysgwr hefyd **awgrymu** gweithgareddau pellach y gallent eu gwneud a allai gyfrannu at ddull iach o fyw. Bydd yr uned o'r budd mwyaf i'r dysgwr os bydd hyn yn bwrw ymlaen â'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd ar ddechrau'r broses (ar gyfer 1.1) ac os ystyrir gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad.

Dylid annog dysgwyr i ffocysu ar faes a fydd yn cyfranu'n wirioneddol i wneud eu dull o fyw yn iachach ac a fydd yn cynnig her bersonol ac un a fydd yn realistig.

<b>RHAU:</b>	A/505/4660
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	4
<b>ODDA:</b>	23
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddedfwriaeth diogelwch a gweithio'n ddiogel yn y gwaith.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>314</b> Mynediad 3 Dysgu diogel yn y gweithle</li> </ul>

#### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. deall deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar gyfer y gweithle

#### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 esbonio pam mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig yn y gweithle
- 1.2 adnabod y **deddfau** iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i wahanol weithleoedd.

#### Cwmpas

1.2 **deddfau** - PPE, arferion gweithio diogel (defnyddio offer), amgylchedd gweithio glân, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. deall risgiau a pheryglon yn y gweithle

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 diffinio'r term **perygl** yn y gweithle
- 2.2 diffinio'r term **risg** yn y gweithle
- 2.3 adnabod **enghreifftiau o beryglon** mewn gwahanol weithleoedd
- 2.4 adnabod **enghreifftiau o risgiau** mewn gwahanol weithleoedd.

### Cwmpas

2.1 a 2.3 **enghreifftiau o beryglon** – ceblau'n ymlusgo, allanfeydd tân wedi'u rhwystro, offer trydanol.

2.2 a 2.4 **enghreifftiau o risgiau** – llithro, baglu a chwympto, dim llwybr osgoi, sioc trydanol, anaf neu farwolaeth.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. gwybod sut i adnabod peryglon yn y gweithle

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 disgrifio sut mae agweddau o **ymddygiad personol** yn gallu gostwng risg yn y gweithle
- 3.2 disgrifio agweddau o wahanol **amgylcheddau gweithle** a allai achosi niwed
- 3.3 nodi pwysigrwydd defnyddio offer amddiffyn personol (PPE) yn y gweithle
- 3.4 nodi pam mae asesiad risg yn bwysig wrth leihau risg yn y gweithle.

### Cwmpas

3.1 **ymddygiad personol** - dilyn gweithdrefnau gweithio diogel sefydledig, cadw'n gweithle'n daclus ac yn drefnus, osgoi chwarae o gwmpas a phethau eraill sy'n tynnu sylw.

3.2 **amgylcheddau gweithle** - tymheredd ystafell, sŵn, sbwriel, mygdarth.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu cynnal asesiad risg

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 rhestru risgiau a pheryglon posibl mewn gweithle penodol
- 4.2 cynnal asesiad risg
- 4.3 disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer hysbysu am risgiau a pheryglon yn y gweithle.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

5. gwybod pa gyfrifoldebau sydd gan bobl am ddiogelwch yn y gweithle

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 5.1 disgrifio cyfrifoldebau cynrychiolydd iechyd a diogelwch yn y gweithle
- 5.2 adnabod manteision cael personau cymorth cyntaf wedi'u henwi yn y gweithle
- 5.3 disgrifio ymddygiad amhriodol ac anniogel yn y gweithle
- 5.4 rhoi manylion camau i'w dilyn yn achos:
  - a. tân
  - b. damwain
  - c. argyfwng.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr esbonio pam mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn bwysig yn y gweithle.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr adnabod y deddfau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i wahanol weithleoedd.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ddiffinio'r term perygl yn y gweithle.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr ddiffinio'r temau perygl a risg.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio sut mae agweddau o ymddygiad personol yn gallu gostwng risg yn y gweithle.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio agweddau o wahanol amgylcheddau gweithle a allai achosi niwed.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr nodi pwysigrwydd defnyddio offer amddiffyn personol (PPE) yn y gweithle.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr nodi pam mae asesiad risg yn bwysig wrth leihau risg yn y gweithle.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr restru tri risg a pherygl posibl mewn gweithle penodol.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr gynnal asesiad risg o fewn eu maes gwaith/lleoliad eu hunain.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio cyfrifoldebau cynrychiolydd iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Ar gyfer 5.2 mae angen i'r dysgwr adnabod manteision cael personau cymorth cyntaf wedi'u henwi yn y gweithle.

Ar gyfer 5.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio ymddygiad amhriodol ac anniogel yn y gweithle.

Ar gyfer 5.4 mae angen i'r dysgwr roi manylion camau i'w dilyn yn achos:

- a. tân
- b. damwain
- c. argyfwng.

Dylai'r dysgwr ystyried galwadau ffug a'r peryglon/effeithiau.

<b>RHAU:</b>	A/506/2709
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	12
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn gallu adnabod sgiliau, rhinweddau a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gwaith a meysydd datblygiad personol.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gallu adnabod sgiliau a rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer gweithio
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio <b>sgiliau</b> , <b>rhinweddau</b> a <b>chyflawniadau</b> personol 1.2 disgrifio <b>sgiliau</b> a <b>rhinweddau</b> personol y gall cyflogwyr fod yn edrych amdanynt.

<b>Cwmpas</b>
1.1 ac 1.2 <b>sgiliau</b> – ymddygiad wedi'i ddysgu trwy gydol bywyd. 1.1 ac 1.2 <b>rhinweddau</b> – priodweddau, tueddiadau personoliaeth. 1.1 <b>cyflawniadau</b> – cymwysterau, pasio prawf gyrru, codi teulu ac ati.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gwybod sut i ddod i wybod am amrywiaeth o swyddi
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod ble i chwilio am swyddi posibl 2.2 dewis swydd bosibl.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

3. deall yr angen am ddatblygu ei sgiliau ei hun
--

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

3.1 adnabod sgiliau a rhinweddau personol i'w datblygu wrth baratoi am swydd bosibl.
--

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

4. gwybod y wybodaeth sy'n ofynnol gan gyflogwyr posibl
---

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

4.1 adnabod <b>gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer gweithio.</b>
--

<b>Cwmpas</b>
---------------

4.1 <b>gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer</b> gweithio – prawf o fanylion personol, cymwysterau, profiad gwaith ac ati.
--

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** sgiliau, rhinweddau a chyflawniadau personol, e.e. gyrru, ieithoedd, hyfforddiant, onestrwydd, bod yn hyblyg, bod yn ddibynadwy, gweithio'n galed, yn drefnus, cymwysterau, Cymorth Cyntaf, Gwobrau Dug Caeredin, Ymddiriedolaeth y Tywysog, cyfathrebu gweithio tîm, sgiliau TG, datrys problemau, brwdfrydedd, dysgwr cyflym, hyblygrwydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** sgiliau a rhinweddau personol y gall cyflogwyr fod yn edrych amdanynt. e.e. bod yn ddibynadwy, yn brydlon, yn onest, yn gwrtais, agwedd gadarnhaol, ymrwymiad, chwaraewr tîm da, arweinydd da, sgiliau TG, dysgwr cyflym, penderfyniad, hyblygrwydd, gallu addasu. Gellir cynhyrchu syniadau trwy drafodaeth grŵp cyhyd ag y bod cyfraniad personol y dysgwr wedi'i gofnodi'n glir. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** ble i chwilio am swyddi posibl e.e. Canolfan Waith, siop bapur, gwefannau, y Stryd Fawr, hysbysfyrddau, cylchgronau proffesiynol, ffrindiau, cydweithwyr, cyflogwyr, asiantaethau recriwtio, adran Adnoddau Dynol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddewis** swydd bosibl, e.e. rhan amser, amser llawn, tymhorol, dros dro, cytundeb. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** sgiliau a rhinweddau personol i'w datblygu wrth baratoi am swydd bosibl, e.e. pasio prawf gyrru, cymwysterau achub bywyd, Cymorth Cyntaf, tystysgrif Hylendid Bwyd, prydlondeb, cyflwyniad personol, dibynadwyedd, sylw i fanylion, cymwysterau ychwanegol, profiad gwaith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn, yn dabl o sgiliau a rhinweddau personol.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwaith e.e. CV cyfoes, ffurflen gais, geirda, tystysgrifau, fisa, caniatâd gweithio, rhif yswiriant gwladol, manylion cyfrif banc, gwiriad DBS (CRB yn gynt). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn, yn rhestr o wybodaeth angenrheidiol.

Gellir gwahodd siaradwyr allanol o gyflogwyr lleol neu wasanaethau gyrfaoedd.

Gallai tiwtoriaid ystyried defnyddio gemau a gweithgareddau sy'n helpu i nodi sgiliau a rhinweddau'r dysgwr ei hun

## Uned 415

## Adeiladu perthnasoedd gwaith yn y gweithle

<b>RHAU:</b>	F/505/4661
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	17
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i adnabod amrywiaeth a deall pwysigrwydd rhyngweithio'n gadarnhaol gyda phobl yn y gweithle. Bydd y dysgwr yn gallu rhyngweithio'n gynhyrchiol, ceisio adborth a gweithredu cynllun gwella.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pam mae hi'n bwysig rhyngweithio gyda phobl yn y gweithle
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi enghreifftiau o wahanol bobl y mae angen i gyflogai rhyngweithio'n gadarnhaol gyda nhw yn y gweithle 1.2 esbonio pam mae angen i gyflogai rhyngweithio'n gadarnhaol gyda chydweithwyr 1.3 esbonio pam mae angen i gyflogai rhyngweithio'n gadarnhaol gydag ymwelwyr yn y gweithle.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall ystyr y term amrywiaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi ystyr y term amrywiaeth.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. gallu rhyngweithio'n gynhyrchiol gyda phobl yn y gweithle
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 defnyddio iaith a thôn briodol wrth gyfathrebu gyda phobl yn y gweithle 3.2 cyflawni ei rôl ei hun yn ôl disgwyliadau y cytunwyd arnynt 3.3 ceisio help ac arweiniad pan fo'n briodol 3.4 ceisio adborth 3.5 datblygu cynllun ar gyfer gwella ar sail adnborth a dderbyniwyd 3.6 gweithredu cynllun gwella 3.7 adolygu cynllun gwella.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr roi tair enghraifft o wahanol bobl y mae angen i gyflogai ryngweithio'n gadarnhaol gyda nhw yn y gweithle.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr esbonio pam mae angen i gyflogai ryngweithio'n gadarnhaol gyda chydweithwyr.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr esbonio pam mae angen i gyflogai ryngweithio'n gadarnhaol gydag ymwelwyr i'r gweithle.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi ystyr y term 'amrywiaeth'. Dylai fod gan y dysgwr wybodaeth sylfaenol am ystyr y term 'amrywiaeth' – bod rhywun neu rywbeth yn wahanol iddyn nhw. Gall yr aseswr ehangu ar hyn gan ddibynnu ar y dysgwr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 dylai'r dysgwr gyfrannu syniadau a barn tra'n parchu amrywiaeth.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr berfformio ei rôl ei hun yn ôl disgwyliadau y cytunwyd arnynt.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr geisio help ac arweiniad pan fo'n briodol.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r dysgwr geisio adborth.

Ar gyfer maen prawf 3.5 mae rhaid i'r dysgwr ddatblygu cynllun ar sail adborth cadarnhaol.

Ar gyfer 3.6 a 3.7 rhaid i'r dysgwr weithredu'r cynllun ac adolygu'r gweithgareddau maen nhw wedi'u gwneud.

<b>RHAU:</b>	J/505/4662
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i allu deall pob agwedd ar ddinasyddiaeth a dangos dealltwriaeth o hawliau dynol sylfaenol, y rhesymau am ddeddfau, y prosesau democrataidd ac etholiadol a hawliau a chyfrifoldebau unigolion o fewn cymdeithas.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>317</b> Mynediad 3 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</li> <li>• <b>318</b> Mynediad 3 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</li> <li>• <b>417</b> Lefel 1 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</li> <li>• <b>441</b> Lefel 1 Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall hawliau a chyfrifoldebau yr unigolyn
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: <ol style="list-style-type: none"> <li>1.1 nodi'r gwahaniaethau rhwng hawliau a chyfrifoldebau unigolyn. <span style="float: right;">individa</span></li> <li>1.2 rhoi enghreifftiau o rwystrau a all rwystro ymarfer hawliau unigol</li> <li>1.3 nodi ffynonellau cefnogaeth ac gwybodaeth hawliau ac cyfrifoldebau</li> <li>1.4 nodi sut gall ffynonellau cefnogaeth a gwybodaeth helpu gyda deall hawliau a chyfrifoldebau</li> <li>1.5 nodi pam mae gan unigolyn gyfrifoldeb tuag at bobl eraill.</li> </ol>

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. deall hawliau a chyfrifoldebau dinesydd

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 disgrifio hawliau a chyfrifoldebau dinesydd fel
  - a. defnyddiwr
  - b. aelod o gymuned leol
  - c. aelod o gymdeithas
- 2.2 esbonio **sut caiff hawliau dinesydd eu gwarchod.**

—

### Cwmpas

2.2 **sut caiff hawliau dinesydd eu gwarchod** - hawliau dynol, deddfau, rheolau.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. deall agweddau ar reolau a deddfau

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 nodi gwahanol fathau o deddfau
- 3.2 nodi gwahanol fathau o reolau
- 3.3 nodi'r gwahaniaeth rhwng deddfau a rheolau
- 3.4 nodi pam mae angen deddfau a rheolau ar gymdeithas.

### Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. gwybod am wahanol fathau o etholiadau

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 disgrifio gwahanol **systemau etholiadol**
- 4.2 nodi pam mae hi'n bwysig pleidleisio
- 4.3 nodi pryd mae unigolyn yn gymwys i bleidleisio.

### Cwmpas

4.1 **systemau etholiadaol** – y person ar y brig, cynrychiolaeth gyfrannol, pleidlais flaenoriaethol, Pleidlais Drosgrwyddadwy Sengl (STV), System Aelod Ychwanegol (AMS).

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr roi tair enghraifft o rwystrau a all rwystro ymarfer hawliau unigol. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf dair ffynhonnell o gefnogaeth neu wybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig, neu gall dysgwyr gynnwys y ffynonellau.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr nodi sut gall o leiaf ddwy o'r ffynonellau a nodir yn 1.3 helpu gyda deall hawliau a chyfrifoldebau. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio o leiaf un enghraifft o hawliau dinesydd ac un enghraifft o'u cyfrifoldebau am un o dan y penawdau canlynol:

- defnyddiwr
- aelod o gymuned leol
- aelod o gymdeithas.

Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr nodi'r gwahaniaethau rhwng Hawliau a chyfrifoldebau unigolyn. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n Ysgrifenedig.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr nodi pam mae gan unigolyn gyfrifoldeb tuag at bobl eraill. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr esbonio **sut caiff hawliau dinesydd eu gwarchod**. Gellir rhoi tystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

## Uned 417

## Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith

<b>RHAU:</b>	L/506/3136
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	17
<b>Nod:</b>	Mae'r uned hon yn rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith, a ble i ddod o hyd i wybodaeth ac arweiniad am eu hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>317</b> Mynediad 3 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</li><li>• <b>318</b> Mynediad 3 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</li><li>• <b>416</b> Lefel 1 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</li><li>• <b>441</b> Lefel 1 Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle</li></ul>

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. deall hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 esbonio'r gwahaniaeth rhwng hawliau a chyfrifoldebau
- 1.2 rhoi enghreifftiau o hawliau cyflogai yn y gweithle
- 1.3 rhoi enghreifftiau o gyfrifoldebau cyflogai yn y gweithle
- 1.4 rhoi enghreifftiau o gyfrifoldebau cyflogwr yn y gweithle
- 1.5 esbonio pam dylid parchu hawliau pobl eraill
- 1.6 disgrifio sut i gyrchu ffynonellau cymorth yn y gweithle

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. gwybod bod deddfau'n gallu gwarchod hawliau cyflogeion

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 adnabod deddfau sy'n gallu gwarchod cyflogeion
- 2.2 adnabod deddfau sy'n gallu gwarchod cyflogwyr
- 2.3 disgrifio cyfrifoldebau cyflogwyr gan gyfeirio at
  - a. cyflawni deddf cyflogaeth
  - b. iechyd a diogelwch
  - c. hawliau dynol
  - ch. cyfleoedd cyfartal.

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf dair enghraifft o hawliau cyflogai yn y gweithle.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf dair enghraifft o gyfrifoldebau cyflogai yn y gweithle.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr roi o leiaf dair enghraifft o gyfrifoldebau cyflogwr yn y gweithle.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddwy ddeddf sy'n gallu gwarchod cyflogeion.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr nodi o leiaf ddwy ddeddf sy'n gallu gwarchod cyflogwyr.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr esbonio'r gwahaniaeth rhwng hawliau a chyfrifoldebau.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr esbonio pam dylid parchu hawliau pobl eraill.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio sut i gyrchu o leiaf ddwy ffynhonnell o gymorth yn y gweithle.

Gellir rhoi tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.5 ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio cyfrifoldebau cyflogwyr gan gyfeirio at bob un o'r canlynol:

- cyflawni deddf cyflogaeth
- iechyd a diogelwch
- hawliau dynol
- cyfleoedd cyfartal.

Gellir rhoi tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 ar lafar neu'n ysgrifenedig.

<b>RHAU:</b>	Y/501/6899
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw cefnogi'r dysgwr wrth gynllunio, cynnal a gwerthuso prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) o'i d/ddewis ei hun.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>319</b> Mynediad 3 Prosiect yr ymgeisydd</li> <li>• <b>505</b> Lefel 2 Prosiect yr ymgeisydd ar gyfer dysgu a gweithio</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. cynllunio prosiect (gweithgaredd neu ddarn o ymchwil)
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 cytuno ar brosiect addas 1.2 rhestru'r camau sy'n rhan o'r prosiect 1.3 awgrymu graddfa amser ar gyfer y gweithgareddau 1.4 cytuno ar y cynllun gyda pherson addas.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. cynnal prosiect
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 dilyn y cynllun prosiect 2.2 adolygu cynnydd gyda pherson addas 2.3 newid y cynllun prosiect os oes angen 2.4 cwblhau'r prosiect.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:  
3. gwerthuso'r prosiect

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 esbonio beth aeth yn dda
- 3.2 esbonio beth nad aeth gystal
- 3.3 disgrifio beth mae e/hi wedi'i ddysgu o gynllunio a chwblhau'r prosiect.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar brosiect addas ( gweithgaredd neu ddarn o ymchwil) gyda'r aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad aseswr.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **restru**'r camau sy'n rhan o'r prosiect.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr **awgrymu** graddfa amser ar gyfer y gweithgareddau.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr **gytuno** ar y cynllun gyda pherson addas h.y. tiwtor neu oruchwyliwr.

Gall tystiolaeth am 1.2 i 1.4 fod yn gynllun prosiect manwl wedi'i lofnodi gan y dysgwr ac aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **ddilyn** y cynllun prosiect a gytunwyd yn 1.4. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr, yn ffotograffau wedi'u hanodi, neu'n ddyddiadur ac arsylwad aseswr neu ddatganiad tyst.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr **adolygu** cynnydd gyda pherson addas e.e. aseswr neu oruchwyliwr. Gall tystiolaeth fod yn gofnod adolygu ysgrifenedig.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr **newid** y cynllun prosiect os oes angen. Gall hyn ddibynnu ar gynnydd neu argaeledd adnoddau. Dylai unrhyw newidiadau gael eu cytuno gyda'r aseswr. Gall tystiolaeth fod yn gynllun wedi'i anodi.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r dysgwr **gwblhau**'r prosiect. Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad y prosiect (e.e. darn o ymchwil neu wrthrych wedi'i gwblhau), datganiad aseswr a/neu fideo, ffotograff neu recordiad sain.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** beth aeth yn dda. Gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr **esbonio** beth allai gael ei wella. Gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio** beth mae e/hi wedi'i ddysgu o gynllunio a chwblhau'r prosiect.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.3 fod yn ddatganiad dysgwr.

## Uned 419 Gweithgaredd mentergarwch – cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth

<b>RHAU:</b>	J/505/4659
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	23
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddatblygu ei sgiliau mentergarwch trwy gynllunio, costio, cynhyrchu, hyrwyddo a gwerthu cynnyrch neu wasanaeth.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>320</b> Mynediad 3 Gweithgaredd mentergarwch</li><li>• <b>321</b> Mynediad 3 Prosiect cymunedol</li><li>• <b>421</b> Lefel 1 Prosiect cymunedol</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gallu cynllunio i gynhyrchu cynnyrch neu ddarparu gwasanaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** dewisiadau amgen i waith cyflog e.e. sefydliadau gwirfoddol, siopau elusen, gofalu am eraill, gwasanaeth cymunedol, mentora, hyfforddi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **restru** gwybodaeth am ddewisiadau amgen i waith cyflog e.e. teulu, ffrindiau, tiwtoriaid, aseswyr, Canolfannau Cynghori (CAB), gwefannau, cylchgronau a phapurau newydd, hysbysfyrddau cymunedol, llyfrgell, siopau elusen. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sefydliadau cenedlaethol cysylltiedig â dewisiadau amgen i waith, e.e. Red Cross, NSPCC, Barnado's, Achub y Plant, Oxfam, Cymorth Cristnogol, Gwasanaeth Gwirfoddol Tramor, Ymddiriedolaeth y Brifysgol, RNLI, Cwnstabl Arbennig, diffoddwr tân wedi'i gadw. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o grwpiau neu wasanaethau sy'n ddewis amgen i waith cyflog yn yr ardal leol, e.e. hosbisau, ambiwlans awyr, sgowtiaid/ geidiau/ rangers, brownies/ cubs, yr Urdd, prydau ar glud, ymweld â'r oedrannus neu'r claf, cludiant ysbyty, CAB, WRCS, arweinydd Dug Caeredin. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu'r** sgiliau a'r rhinweddau y gellid eu hennill o ddewisiadau amgen i waith cyflog e.e. sgiliau cyfathrebu, sgiliau technegol, sgiliau'r cartref, sgiliau rheoli amser, sgiliau rheoli pobl, caffael gwybodaeth a/neu allu newydd, hyder, amynedd, empathi, penderfyniad, dyfalbarhad, prydlondeb, dibynadwyedd, hyblygrwydd, teyrngarwch, gwella hunan-barch. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** sut gallai sgiliau a rhinweddau a enillwyd o waith cyflog helpu ym meysydd eraill bywyd, e.e. mwy o ddealltwriaeth o faterion, cael dyrchafiad, gwella rhagolygon cyflogaeth yn sgil sgiliau newydd, gwella dealltwriaeth o bobl eraill yn y gwaith, man astudio neu gartref, gwneud cysylltiadau newydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Gallai siaradwyr allanol gael eu gwahodd o'r Ganolfan Gynghori (CAB) a sefydliadau priodol eraill.

<b>RHAU:</b>	M/506/2786
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o ddatrys problemau.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>220</b> Mynediad 2 Delio â phroblemau mewn bywyd bob dydd</li> <li>• <b>337</b> Mynediad 3 Delio â phroblemau mewn bywyd bob dydd</li> <li>• <b>519</b> Lefel 2 Delio â heriau</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gwybod sut i adnabod problem
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod problem 1.2 amlinellu effeithiau problem.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gallu cynllunio datrysiad i broblem
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi <b>datrysiad</b> posibl i ddatrys problem 2.2 nodi ffynonellau a chamau gweithredu angenrheidiol 2.3 amlinellu cynllun i ddatrys problem.

<b>Cwmpas</b>
2.1 <b>datrysiad</b> - ffordd a/neu ddull o ddatrys problem.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. gallu adolygu datrysiad a gynlluniwyd i broblem
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 nodi <b>effeithiolrwydd</b> y cynllun.

<b>Cwmpas</b>
3.1 <b>effeithiolrwydd</b> – asesu beth aeth yn dda a beth nad aeth gystal.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** problem e.e. heb fod â digon o arian, dogfennau pwysig ar goll, e.e. tystysgrif geni, heb fod â'r cymwysterau iawn i fynd ar gwrs neu i wneud cais am swydd benodol, ddim yn gallu mynd i apwyntiad mewn pryd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** effeithiau problem e.e. ddim yn gallu talu rhent/morgais, ddim yn gallu mynd ar wyliau, ddim yn gallu fforddio mynd allan gyda ffrindiau, ddim yn gallu cynnig prawf a allai olygu peidio â chael cynnig swydd, cael lle ar gwrs, methu dilyn gyrfa a ddewiswyd, colli cyfweiliad swydd neu gyfle i gael swydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** datrysiad posibl i ddatrys problem e.e. gweithio gormaser, swydd arall/ychwanegol, benthyca arian, cael copiau ardystiedig o ddogfennau coll, eu rhoi mewn lle diogel, cynllunio o flaen llaw i fynd i apwyntiadau, gwirio cludiant amgen i fynd i apwyntiadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **adnabod** ffynonellau a gweithredoedd angenrheidiol e.e. pobl, sefydliadau, rhynggrwyd, defnyddiau, offer, siarad â'r teulu, trefnu siarad â banc, gwneud apwyntiadau gydag ymgynghorwr dyledion, gosod larwm am apwyntiad, llungopio dogfennau pwysig, cynllunio o flaen llaw. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** cynllun i ddatrys problem. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** effeithiolrwydd y cynllun, a wnaeth y cynllun weithio, pa rannau o'r cynllun aeth yn dda a beth nad aeth gystal. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

<b>RHAU:</b>	L/506/2701
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o sut i ddatblygu hyder personol.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

1. deall ystyr hyder personol a hunan-ymwybyddiaeth

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 diffinio ystyr **hyder personol**
- 1.2 diffinio ystyr **hunanymwybyddiaeth**.

**Cwmpas**

- 1.1 **hyder personol** – cred neu ffydd ynoch chi'ch hun a/neu eich gallu'ch hun, hunansicrwydd neu hunanargyhoeddiad.
- 1.2 **Hunanymwybyddiaeth** - bod yn ymwybodol o'ch cymeriad eich hun, cryfderau a gwendidau.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. gwybod lefelau presennol o hunanhyder/hyder personol

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 amlinellu lefelau o hyder personol/ hunanhyder mewn **sefyllfaoedd gwahanol**
- 2.2 rhoi enghreifftiau o hyder personol/ hunanhyder **mewn sefyllfaoedd gwahanol**.

**Cwmpas**

- 2.1 a 2.2 **sefyllfaoedd gwahanol** – gwaith, cartref, lle astudio/hyfforddi, sefyllfaoedd cymdeithasol ac ati.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. gallu datblygu hyder personol a hunanymwybyddiaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 adnabod amrywiaeth o ffyrdd i ddatblygu hyder personol 3.2 nodi manteision gwell hunanhyder.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr hyder personol e.e. cred neu ffydd ynoch chi'ch hun a/neu eich gallu eich hun, hunansicrwydd neu hunanargyhoeddiad. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr hunanymwybyddiaeth e.e. bod yn ymwybodol o'i gymeriad ei hun, cryfderau a gwendidau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** lefelau o hyder personol/ hunanhyder mewn sefyllfaoedd gwahanol e.e. wrth siarad yn gyhoeddus, cyflwyniadau, cymdeithasu, arwain, cyfathrebu, datrys problemau a bod mewn sefyllfaoedd newydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn, yn dabl barnu'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o lefelau o hyder personol/ hunanhyder mewn sefyllfaoedd gwahanol e.e. wrth siarad yn gyhoeddus, cyflwyniadau, cymdeithasu, arwain, cyfathrebu, datrys problemau a bod mewn sefyllfaoedd newydd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** amrywiaeth o ffyrdd i ddatblygu hyder personol e.e. rhestru priodweddau a galluoedd cadarnhanol, adnabod cyflawniadau, gosod targedau/nodau, cwblhau dadansoddiad SWOT, dysgu o camsyniadau'r gorffennol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** manteision gwell hunanhyder e.e. swydd newydd, dyrchafiad, gweithgareddau newydd, llai o straen, ffrindiau newydd, cyfleoedd newydd, agwedd gadarnhaol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

<b>RHAU:</b>	T/506/2711
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Bydd y dysgwyr yn deall pryd i fod yn bendant mewn sefyllfaoedd priodol
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

1. deall ystyr pendantrwydd

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 diffinio ystyr pendantrwydd
- 1.2 rhoi enghreifftiau o ymddygiad pendant.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. deall effeithiau ymddygiad pendant

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 rhoi enghreifftiau o bryd mae ymddygiad pendant yn briodol
- 2.2 nodi effeithiau cadarnhaol ymddygiad pendant
- 2.3 nodi effeithiau negyddol ymddygiad pendant.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr pendantsrwydd e.e. bod yn hyderus, hunan-sicr, yn bendant, yn gadarnhaol, yn rymus. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** ymddygiad pendant e.e. siarad drosoch chi'ch hun/pobl eraill, gwybod eich hawliau, hyder mewn gallu, cymryd rheolaeth o sefyllfa. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o bryd mae ymddygiad pendant yn briodol e.e. cyfweiliadau, cyfarfodydd, trafodaethau grŵp. Esboniwch i ddysgwyr y gall fod yn amhriodol yn yr enghreifftiau hyn ond bydd hyn bob amser yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** effeithiau cadarnhaol ymddygiad pendant e.e. creu argraff dda/gofiadwy, dylanwadu ar wneud penderfyniadau, ar gyfer y siawns orau o gael canlyniad llwyddiannus o e.e. cyfarfod, efallai'n cyflawni eu nodau eu hunain. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** effeithiau negyddol ymddygiad pendant e.e. ynysu'ch hun oddi wrth bobl eraill, cynhyrfu cydweithwyr, ffrindiau a'r teulu, creu argraff wael, dangos agwedd wael, cyflawni'r gwrthwyneb i'r hyn a fwriadwyd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

## Uned 433 Delio â newid

<b>RHAU:</b>	R/506/2733
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu dysgwr i adnabod mathau o newid a'r effaith y gall newid ei chael. Bydd dysgwyr yn ystyried ffyrdd o ddelio â'r newid a'r <u>adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo gyda hyn.</u>
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gallu adnabod mathau o newid
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio beth yw ystyr newid wedi'i gynllunio 1.2 disgrifio beth yw ystyr newid heb ei gynllunio 1.3 disgrifio beth yw ystyr newid cynyddol 1.4 adnabod y gwahanol gamau o fewn proses o newid.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall effaith newid
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio effaith newid ar unigolyn 2.2 disgrifio effaith newid ar sefydliad 2.3 disgrifio effaith newid ar gymuned.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. deall ffyrdd o ddelio â newid
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 nodi ffyrdd y gall unigolyn addasu i newid

3.1 adnabod yr adnoddau sydd ar gael i helpu unigolyn i ddelio â newid.

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio** beth yw ystyr newid wedi'i gynllunio.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr **ddisgrifio** beth yw ystyr newid heb ei gynllunio.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio beth yw ystyr newid cynyddol.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr adnabod y gwahanol gamau o fewn proses o newid.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio effaith newid ar unigolyn.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio effaith newid ar sefydliad.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio effaith newid ar gymuned.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr nodi ffyrdd y gall unigolyn addasu i newid.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr adnabod yr adnoddau sydd ar gael i helpu unigolyn i ddelio â newid.

<b>RHAU:</b>	R/505/4664
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	14
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall perthnasoedd rhyngpersonol ac archwilio ffyrdd o ddatblygu perthnasoedd a rhyngweithio'n gadarnhaol.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall perthnasoedd rhyngpersonol
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio ystyr y term perthnasoedd rhyngpersonol 1.2 esbonio pwysigrwydd datblygu perthnasoedd rhyngpersonol cadarnhaol 1.3 disgrifio'r gwahaniaethau rhwng rhyngweithio gydag unigolion a rhyngweithio fel rhan o grŵp 1.4 disgrifio <b>nodweddion</b> pwysig mewn datblygu perthnasoedd rhyngpersonol 1.5 disgrifio <b>nodweddion</b> pwysig mewn datblygu perthnasoedd grŵp.

<b>Cwmpas</b>
1.4 ac 1.5 <b>nodweddion</b> – bod yn sensitif i anghenion pobl eraill, gwranddo, defnyddio iaith briodol, sgiliau arweinyddiaeth, deall emosiynau, dangos parch.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall sut i ryngweithio'n gadarnhaol gyda phobl eraill
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio'r rhesymau dros gael ffiniau wrth ryngweithio gyda phobl eraill 2.2 rhoi enghreifftiau o ffiniau mewn perthnasoedd rhyngpersonol 2.3 amlinellu gwahanol ffyrdd o wneud penderfyniadau.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio beth yw ystyr y term perthnasoedd rhyngpersonol.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr esbonio pwysigrwydd datblygu perthnasoedd rhyngpersonol cadarnhaol.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio'r gwahaniaethau rhwng rhyngweithio gydag unigolion a rhyngweithio fel rhan o grŵp.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio nodweddion pwysig mewn datblygu perthnasoedd rhyngpersonol.

Ar gyfer 1.5 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio nodweddion pwysig mewn datblygu perthnasoedd grŵp.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio'r rhesymau dros gael ffiniau wrth rhyngweithio gyda phobl eraill.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr roi enghreifftiau o ffiniau mewn perthnasoedd rhyngpersonol.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r dysgwr amlinellu gwahanol ffyrdd o wneud penderfyniadau.

# Uned 435 Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth

<b>RHAU:</b>	D/506/2699
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	17
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw bod y dysgwr yn dod yn ymwybodol o gydraddoldeb ac amrywiaeth a beth yw ystyr hyn.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>515</b> Lefel 2 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall ystyr y term cydraddoldeb
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio'r term cydraddoldeb 1.2 diffinio'r term rhagfarn 1.3 diffinio'r term gwahaniaethu 1.4 rhestru <b>deddfwriaeth</b> allweddol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth 1.5 rhoi enghreifftiau o wahaniaethu sy'n gallu digwydd yn y gweithle.

<b>Cwmpas</b>
1.4 <b>deddfwriaeth</b> - deddfau.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall ystyr amrywiaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1. nodi ystyr amrywiaeth.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall pam mae hi'n bwysig cael gwybodaeth o amrywiaeth

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 diffinio'r term diwylliant
- 3.2 diffinio cynwysoldeb
- 3.3 rhestru gwahaniaethau unigol
- 3.4 rhoi enghreifftiau o amrywiaeth yn y gweithle.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. deall pam mae hi'n bwysig cael gwybodaeth am wahanol grefyddau

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 rhestru amrywiaeth o wahanol **grefyddau**
- 4.2 nodi pam mae hi'n bwysig cael gwybodaeth o wahanol grefyddau yn y gweithle
- 4.3 rhoi enghreifftiau o sut mae cyflogwyr yn rhoi lle i wahanol grefyddau yn y gweithle.

### **Cwmpas**

4.1 **crefyddau** - cred gadarn mewn crefydd, system o gredoau crefyddol.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** r term cydraddoldeb e.e. sicrhau bod unigolion neu grwpiau'n cael eu trin yn deg ac yn gydradd a heb fod yn llai ffafriol, yn benodol i'w hanghenion, gan gynnwys meysydd hil, rhywedd, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriant rhywiol ac oed. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** r term rhagfarn e.e. barn anffafriol neu deimlad wedi'i ffurfio o flaen llaw neu heb wybodaeth, meddwl neu reswm. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** r term gwahaniaethu e.e. triniaeth anghyfiawn neu annheg o bobl, yn enwedig oherwydd eu hil, rhyw neu oed. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **restru** r ddeddfwriaeth allweddol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth e.e., Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 (sy'n uno Deddf Tâl Cyfartal 1970; 1970, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriant rhywiol) 2003, Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006, Deddf Cydraddoldeb 2006, Rhan 2, (Cyfeiriant rhywiol) Rheoliadau 2007). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.5 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o wahaniaethu sy'n gallu digwydd yn y gweithle. e.e. peidio â rhoi dyrchafiad i fenyw yn unig am ei bod yn fenywaidd, talu dynion a menywod yn anghyfartal am wneud yr un swydd yn union, peidio â chaniatáu yr un cyfleoedd i weithwyr heb sylw i gyfeiriant rhywiol, crefydd, oed ac ati. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** ystyr amrywiaeth e.e. cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu gwahanol gefndir, gwybodaeth, sgiliau, anghenion a phrofiadau pobl, ac annog a defnyddio'r gwahaniaethau hyn i greu cymuned gydlynus a gweithlu effeithiol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** r term diwylliant e.e. ffordd pobl o fyw, y ffordd y mae grwpiau o bobl yn gwneud pethau gan gynnwys syniadau, arferion ac ymddygiad cymdeithasol pobl neu gymdeithas benodol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** cynwysoldeb e.e. bod yn agored i bawb, nid yn gyfyngedig i bobl benodol, peidio â chau allan unrhyw adran o gymdeithas. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **restru** gwahaniaethau unigol e.e. hil, crefydd, credo, lliw croen, rhywedd, cyfeiriant rhywiol, oed, anabledd, lliw gwallt ac ati. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o amrywiaeth yn y gweithle e.e. cyflogi pobl hŷn â phrofiad penodol (B & Q), darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau crefyddol yn ystod y diwrnod gwaith. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **restru** amrywiaeth o wahanol grefyddau e.e. Catholigiaeth, Iddewiaeth, Islam, Cristnogaeth, Hindŵaeth, Siciaeth. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 4.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** pam mae hi'n bwysig cael gwybodaeth o wahanol grefyddau yn y gweithle e.e. i sicrhau nad oes tramgwyddo, i sicrhau bod pobl yn cael eu parchu, i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg a gyda sylw i'w teimladau, eu dymuniadau a'u traddodiadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 4.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sut mae cyflogwyr yn rhoi lle i wahanol grefyddau yn y gweithle. e.e. darparu ystafell weddi ar gyfer addoli, trwy gadw at/rhoi lle i wyliau/gwleddoedd crefyddol, trwy ganiatáu gwisg grefyddol ac ati. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

<b>RHAU:</b>	F/600/7804
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	16
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall gwerth cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gymuned.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>515</b> Lefel 2 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall agweddau o gydraddoldeb
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio'r term 'cydraddoldeb' 1.2 rhestru'r ddeddfwriaeth allweddol 1.3 rhoi enghreifftiau o anghydraddoldeb mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd 1.4 adnabod cyrff sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb.
<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall agweddau o amrywiaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 diffinio'r term 'amrywiaeth' 2.2 rhestru'r ddeddfwriaeth allweddol 2.3 rhoi enghreifftiau o stereoteipio cadarnhaol a negyddol 2.4 rhoi enghreifftiau o sut gall amrywiaeth fod o fudd i gymdeithas.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall agweddau o wahaniaethu

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 nodi'r gwahaniaeth rhwng gwahaniaethu a rhagfarn
- 3.2 rhestru'r meysydd gwahaniaethu sy'n cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth
- 3.3 rhoi enghraifft o wahaniaethu uniongyrchol
- 3.4 rhoi enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Mae'r uned hon yn ffocysu ar archwilio cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a rhagfarn mewn cymdeithas.

Mae angen i ddysgwyr gael ei gyflwyno i'r termau 'cydraddoldeb' ac 'amrywiaeth'.

Dylent ymchwilio/trafod beth yw ystyr ac effaith y ddau. Mae'n rhaid i amrywiaeth gynnwys nodweddion allweddol, fel ethnigrwydd a rhyw. Dylai dysgwyr adnabod cyrff sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb/amrywiaeth a deddfwriaeth berthnasol. Does dim disgwyl iddyn nhw ddarllen y Deddfau ond dylen nhw wybod am beth maen nhw a beth yw'r pwyntiau pwysig.

Gallai siaradwyr allanol gael eu gwahodd o'r Ganolfan Gyngori (CAB) a sefydliadau gwirfoddol priodol eraill.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddiffinio**'r term cydraddoldeb.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru**'r ddeddfwriaeth allweddol e.e. Deddf Cydraddoldeb 2006.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o anghydraddoldeb mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd e.e. gwahaniaethau yn y ffordd y caiff unigolion eu trin yn ôl oed, rhyw, anabledd ac ati yn y gwaith neu yn y gymuned.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** cyrff sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb e.e. Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddiffinio**'r term amrywiaeth.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru**'r ddeddfwriaeth allweddol e.e. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o stereoteipio cadarnhaol a negyddol e.e. o ran rhyw, oed.

Ar gyfer 2.4 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghreifftiau** o sut mae amrywiaeth yn gallu bod o fudd i gymdeithas e.e. gwella dealltwriaeth, goddefgarwch.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi**'r gwahaniaeth rhwng gwahaniaethu (e.e. anghydraddoldeb) a rhagfarn (cred wedi'i llunio eisoes).

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru'r** meysydd gwahaniaethu sy'n cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth e.e. hil, rhyw, anabledd.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghraifft** o wahaniaethu uniongyrcho

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **roi enghraifft** o wahaniaethu anuniongyrchol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 i 3.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod aseswr.

<b>RHAU:</b>	K/600/6193
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	26
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall iaith a diwylliant cymuned neu wlad.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>515</b> Lefel 2 Archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall sut mae diwylliannau cymunedau'n amrywio
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi diffiniad o 'gymuned' 1.2 rhoi enghreifftiau o debygrwydd rhwng diwylliant eu cymuned hwy a diwylliannau cymunedau eraill 1.3 rhoi enghreifftiau o wahaniaethau rhwng diwylliant eu cymuned hwy a diwylliannau cymunedau eraill 1.4 esbonio sut gallai rhai o'r elfennau tebyg a gwahanol fod o fudd i'r gymuned y mae'n byw ynddi.
<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall diwylliant cymuned
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 dewis cymuned i'w hastudio gan roi rhesymau dros y dewis 2.2 amlinellu'r dylanwadau hanesyddol ar y gymuned 2.3 amlinellu elfennau allweddol y diwylliant.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. gallu defnyddio iaith arall
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 adnabod nodweddion allweddol yr iaith a ddewiswyd 3.2 cael gwybodaeth syml gan ddefnyddio'r iaith a ddewiswyd 3.3 darparu gwybodaeth syml gan ddefnyddio'r iaith a ddewiswyd.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Gellid gwahodd siaradwyr allanol i siarad gyda'r dysgwyr a thrafod eu profiadau o'r gymuned a gallai fideos ychwanegu diddordeb i'r sesiynau. Gallai fod hefyd gyfle ar gyfer ymweliadau a chyfnewid.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **roi** diffiniad o 'gymuned'.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **roi** o leiaf dair **enghraifft** o debygrwydd rhwng diwylliant ei gymuned ei hun a diwylliannau o leiaf ddwy gymuned arall.

Ar gyfer 1.3 mae angen i'r ymgeisydd **roi** o leiaf dair **enghraifft** o wahaniaethau rhwng diwylliant ei gymuned ei hun a diwylliannau o leiaf ddwy gymuned arall.

Ar gyfer 1.4 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** sut gallai rhai o'r elfennau tebyg a gwahanol a nodwyd yn 1.2 ac 1.3 fod o fudd i'r gymuned y mae'n byw ynddi.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 i 1.4 fod yn ddatganiad ymgeisydd.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **ddewis** cymuned i'w hastudio gan roi rhesymau dros y dewis. I rai ymgeiswyr gallai'r gymuned a ddewisir fod yr un y mae'n byw ynddi'n awr (e.e. ymgeiswyr o wlad arall) neu'r un y mae eu rhieni'n dod ohoni (e.e. rhywun wedi'i eni yn y wlad hon ond ei rieni wedi'u geni mewn gwlad arall). Ar gyfer ymgeiswyr eraill gallai'r gymuned a ddewiswyd fod yr un y maen nhw'n gobeithio gweithio ynddi neu dreulio amser hamdden ynddi (e.e. y gymuned fyddar).

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **amlinellu**'r dylanwadau hanesyddol ar y gymuned

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **amlinellu** elfennau allweddol y diwylliant.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gyflwyniad.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** o leiaf ddwy nodwedd o'r iaith a ddewiswyd.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **gael** gwybodaeth syml gan ddefnyddio'r iaith a ddewiswyd. Gellir cael yr wybodaeth o ffynonellau ysgrifenedig e.e. bwydlenni neu ar lafar e.e. gofyn am gost eitem.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **ddarparu** gwybodaeth syml gan ddefnyddio'r iaith a ddewiswyd e.e. eu henw, o ble maen nhw'n dod. Gellir rhoi gwybodaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gall tystiolaeth am 3.1 i 3.3 gael ei chynhyrchu ar lafar (a'i gofnodi fel arsylwad aseswr/tyst neu drwy recordiad sain) neu'n ysgrifenedig (e.e. datganiad ymgeisydd).

<b>RHAU:</b>	H/501/6887
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	22
<b>Nod:</b>	Nod yr uned yw helpu'r dysgwr i allu darparu cefnogaeth i bobl eraill, gan gynnwys gwybod beth y mae'n gallu a ddim yn gallu'i wneud i gefnogi pobl eraill a pham, bod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch ac adolygu effeithiolrwydd y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. adnabod pobl eraill sydd ag angen cefnogaeth
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhestru'r person(au) sydd ag angen cefnogaeth mewn gwahanol ffyrdd 1.2 disgrifio anghenion cefnogaeth y person(au) y mae e wedi penderfynu'u cefnogi.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gwybod beth mae'n gallu'i wneud i gefnogi pobl eraill
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi dwy ffordd y gall gefnogi'r person(au) 2.2 cytuno sut i gefnogi'r person(au).

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. deall beth nad yw'n gallu'i wneud i gefnogi pobl eraill a pham
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 esbonio beth nad yw'n gallu'i wneud i helpu neu gefnogi 3.2 esbonio pam nad yw'n gallu helpu neu gefnogi yn y ffordd hon.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. bod yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch perthnasol

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 rhestru materion iechyd a diogelwch perthnasol

4.2 gweithio'n ddiogel.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

5. cefnogi pobl eraill

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

5.1 cefnogi'r person neu bersonau.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

6. adolygu effeithiolrwydd y gefnogaeth a roddwyd

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

6.1 adnabod beth aeth yn dda a beth nad aeth yn dda

6.2 adnabod y newidiadau y byddai'n eu gwneud os yw'n darparu'r gefnogaeth eto.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Mae tystiolaeth yn debygol o gael ei chasglu gan weithgaredd unigol ond gallai gael ei chasglu o gefnogi fel grŵp e.e. grŵp yn cymryd rhan gyda chartref preswyl ar gyfer yr oedrannus, cyhyd â bod yr holl feini prawf wedi'u cwmpasu.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r dysgwr **restru** pwy sydd angen cefnogaeth mewn gwahanol ffyrdd e.e. gallai person caeth i'r cartref fod ag angen help gyda'u siopa, gallai person newydd yn y gwaith neu le dysgu fod ag angen mentora, gallai fod ar riant angen cefnogaeth gyda gwarchod baban.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr ddewis person penodol a **disgrifio** anghenion cefnogaeth y person(au) y mae wedi penderfynu'u cefnogi. Gallai'r person sydd ag angen cefnogaeth fod yn rhywun y mae'r dysgwr yn ei adnabod e.e. cydweithiwr neu rywun nad yw'n ei adnabod e.e. o ganolfan ddydd leol, elusen gendlaethol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 1.1 a 1.2 fod yn ddatganiad dysgwr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r dysgwr **nodi** dwy ffordd y gall gefnogi'r person(au) e.e. ar gyfer person caeth i'r tŷ, gallai cefnogaeth gynnwys nôl eitemau o siopau, eu helpu nhw i archebu eu prif siopa trwy wefan, postio llythyrau, mynd â'r ci am dro. Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 fod yn ddatganiad dysgwr neu'n ddatganiad aseswr neu dyst wedi'i gynhyrchu yn ystod adolygiad neu sesiwn diwtorial.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r dysgwr **gytuno** sut i gefnogi'r person(au). Gallai tystiolaeth fod yn gofnod ysgrifenedig wedi'i gynhyrchu gan yr aseswr neu'r dysgwr yn nodi beth bydd y dysgwr yn ei wneud a phryd byddan nhw'n ei wneud. Dylai hyn gael ei gytuno gyda'u tiwtor/goruchwyliwr a'r person sy'n derbyn cefnogaeth.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r dysgwr **esbonio** beth nad yw'n gallu'i wneud i helpu neu gefnogi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sydd ag angen gwybodaethu/cymwysterau arbenigol neu sydd ar lefel amhriodol cymryd rhan e.e. rhoi meddyginiaeth.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r dysgwr **esbonio** pam nad yw'n gallu helpu neu gefnogi yn y ffordd hon.

Gall tystiolaeth ar gyfer 3.1 a 3.2 fod yn ddatganiad dysgwr.

Ar gyfer maen prawf 4.1 mae angen i'r dysgwr **restru**'r materion iechyd a diogelwch perthnasol i'r rôl gefnogi sy'n cael ei gweithredu. Gallai hyn gynnwys diogelwch codi, peidio â rhoi eu hunain o dan risg, storio bwyd yn ddiogel ac ati. Gall tystiolaeth ar gyfer 4.1 fod yn ddatganiad dysgwr.

Ar gyfer 4.2 mae angen i'r dysgwr **weithio'n ddiogel** yn y rôl gefnogi. Dylai tystiolaeth fod yn arsylwad aseswr neu'n ddatganiad tyst. Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon hefyd ar gyfer 5.1.

Ar gyfer maen prawf 5.1 mae angen i'r dysgwr **gefnogi**'r person neu'r personau fel y cytunwyd yn 2.2.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr, yn arsylwad aseswr/tyst, yn ffotograffau neu'n recordiadau sain/fideo ond rhaid cymryd gofal i gynnal cyfrinachedd y person sy'n gofyn am gefnogaeth lle mae'n briodol.

Ar gyfer 6.1 mae angen i'r dysgwr **adnabod** beth aeth yn dda a beth nad aeth yn dda.

Ar gyfer 6.2 mae angen i'r dysgwr **nodi**'r newidiadau y byddai'n eu gwneud os yw'n darparu'r gefnogaeth eto.

Gall tystiolaeth ar gyfer 6.1 a 6.2 fod yn ddatganiad dysgwr. Gall dysgwyr gwmpasu sawl maen prawf asesu trwy roi sgwrs fer i'w cymheiriaid. Dylai tystiolaeth gynnwys nodiadau dysgwr, ffotograffau (e.e. lleoliad) neu arsylwad aseswr.

<b>RHAU:</b>	D/506/2704
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	12
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i fod yn ymwybodol o'u hamgylchedd.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>219</b> Mynediad 2 Ymwybyddiaeth amgylcheddol</li> <li>• <b>335</b> Mynediad 3 Ymwybyddiaeth amgylcheddol</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall ystyr ymwybyddiaeth amgylcheddol
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio ystyr <b>amgylchedd</b> 1.2 diffinio ystyr <b>ymwybyddiaeth amgylcheddol</b> .

<b>Cwmpas</b>
1.1 <b>amgylchedd</b> - y byd naturiol o'n cwmpas. 1.2 <b>ymwybyddiaeth amgylcheddol</b> – bod yn ymwybodol ac â gofal am y byd o'n cwmpas, yn bersonol ac yn fyd-eang.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gwybod am faterion sy'n effeithio ar yr amgylchedd.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru'r materion sy'n effeithio'r amgylchedd <b>lleol</b> 2.2 rhestru materion sy'n effeithio'r amgylchedd <b>ehangach</b> .

<b>Cwmpas</b>
2.1 <b>lleol</b> - ardal ger y cartref/man gwaith/asudio. 2.2 <b>ehangach</b> - y tu allan i'r ardal leol/sir/byd-eang.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. gallu adnabod ffyrdd o wella'r amgylchedd
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: <b>3.1</b> amlinellu ffyrdd o fynd i'r afael â <b>materion</b> amgylcheddol <b>3.2</b> adnabod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o <b>faterion</b> amgylcheddol.

<b>Cwmpas</b> -
3.1 a 3.2 <b>materion</b> - diwydiannol, y cartref, personol, preswyl.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ystyr amgylchedd e.e. y byd naturiol o'n cwmpas. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** ymwybyddiaeth amgylcheddol e.e. bod yn ymwybodol a bod â gofal am y byd o gwmpas, yn bersonol ac yn fyd-eang. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **restru** materion sy'n effeithio'r amgylchedd lleol e.e. sbwriel, safleoedd tirlenwi, cost ynni, llygredd, gorlifo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **restru** materion sy'n effeithio'r amgylchedd ehangach. e.e. llygredd, gwresogi byd-eang, capanau'r pegynau'n toddi, cyflenwad cyfyngedig o danwydd ffosil, ffynonellau ynni amgen, dadgoedwigo. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** ffyrdd o fynd i'r afael â materion amgylcheddol e.e. rhannu car, prynu'n ail law, diffodd cyfrifiaduron/setiau teledu yn y nos, ailgylchu, defnyddio dwy ochr darn o bapur, cael cawod yn lle bath, troi tapiau i ffwrdd yn llwyr, prynu cynnyrch lleol i leihau milltiroedd tanwydd, troi goleuadau diangen i ffwrdd, troi'r gwres i lawr, osgoi defnyddio bagiau plastig/cewynnau tafladwy, peidio â thafllu sbwriel, gwaredu sbwriel yn synhwyrol, buddsoddi mewn paneli haul. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol e.e. cynhyrchu a dosbarthu taflen neu boster, rhoi sgwrs neu gyflwyniad, defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bobl, cymryd rhan mewn trafodaethau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Gellir cwrdd â'r meini prawf hyn yn holistig trwy gyflwyniad mewn PowerPoint neu fformatau eraill

Gellid gwahodd siaradwyr allanol, sy'n ymboeni am yr amgylchedd, i siarad â dysgwyr.

<b>RHAU:</b>	H/506/2705
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Bydd y dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd rolau, cyfrifoldebau ac anghenion aelodau teulu
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall rolau newidiol y teulu
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio'r gwahanol fathau o grwpiau teulu 1.2 rhestru'r gwahanol aelodau o grŵp teulu 1.3 rhestru rolau o fewn grŵp teulu.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall achosion ac effeithiau problemau mewn perthnasoedd teulu
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod problemau mewn perthnasoedd teulu 2.2 rhoi enghreifftiau o effeithiau posibl problemau mewn perthnasoedd teulu

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. deall cyfrifoldebau personol o fewn y teulu
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 amlinellu cyfrifoldebau personol o fewn grŵp teulu.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. gallu adnabod anghenion newidiol aelodau teulu

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 Nodi sut mae anghenion yn gallu newid wrth i amgylchiadau newid.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** r gwahanol fathau o grwpiau teulu e.e. rhiant sengl, mwy nag un rhiant, brodyr a chwiorydd, cyplau, estynedig, maeth, wedi mabwysiadu Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **restru** gwahanol aelodau o grŵp teulu e.e. mamau, tadau, llys-fam, llys-tad, brodyr, chwiorydd, llys-chwiorydd, llys-frodyr, llys-blant, hanner chwaer, hanner brawd, mamau-cu, tadau-cu, hen dadau a mam-gu, modryb, ewythr, nith, nai, cefndryd, teulu yng-nghyfraith, partneriaid, lletywyr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **restru** rolau o fewn grŵp teulu e.e. cefnogwr ariannol, gofalwr, ffrind, arweinydd, cefnogwr emosiynol, cynghorwr, cwmselwr, ffigur awdurdodol, lluniwr penderfyniadau, peiriannydd cartref, cynllunydd, addurnwr. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** problemau mewn perthnasoedd teulu e.e. materion gydag arian, diffyg amser, salwch, colli gwaith, diweithdra, materion mewn bywyd cymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ymddygiad troseddol, godineb, ysgariad, problemau gyda theuluoedd cymysg, anabledd, materion iechyd meddwl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau posibl problemau mewn perthnasoedd teulu e.e. ysgariad, teulu'n torri, dynameg teulu newydd, ynysu, iselder, perfformiad gwael yn y gwaith/dysgu, ansicrwydd ariannol, colli cartref, symud cartref, lleoliad newydd, newid ysgolion/coleg/swydd, teimlad o annigonolrwydd, difreintio cymdeithasol ac emosiynol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** cyfrifoldebau personol o fewn grŵp teulu e.e. cefnogaeth ariannol, rheoli cyllid, cefnogaeth emosiynol, gofalwr, tasgau'r cartref, gofal plant, gwasanaeth tacsï, coginio, gwarchod plant, mynd â'r ci am dro. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corrbyn, yn dabl barnu'ch hun.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** sut mae anghenion yn gallu newid wrth i amgylchiadau newid e.e. mwy/llai o annibyniaeth, cefnogaeth ychwanegol, lefel uwch o ofal, mwy/llai o gyfrifoldeb, mwy/llai o amser hamdden, mwy/llai o fewnbnw ariannol, mwy/llai o angen gofod yn y cartref. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

<b>RHAU:</b>	L/501/6883
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	20
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddeall bod gan gyflogeion hawliau a chyfrifoldebau a pham mae rheolau iechyd a diogelwch yn bwysig.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>317</b> Mynediad 3 Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</li> <li>• <b>318</b> Mynediad 3 Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</li> <li>• <b>416</b> Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth</li> <li>• <b>417</b> Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall bod gan gyflogeion hawliau
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhestru amrywiaeth o hawliau cyflogeion 1.2 nodi sut caiff hawliau cyflogeion eu gwarchod gan y gyfraith.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall bod gan gyflogeion gyfrifoldebau
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhestru amrywiaeth o gyfrifoldebau cyflogeion 2.2 disgrifio ei g/chyfrifoldebau 2.3 esbonio pam mae hi'n bwysig cadw peth gwybodaeth yn gyfrinachol.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. deall pam rheolau iechyd a diogelwch yn bwysig

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 adnabod ac ymateb i beryglon yn ei f/man dysgu neu weithio
- 3.2 rhestru gofynion am iechyd a diogelwch personol yn ei f/man gweithio neu ddysgu
- 3.3 esbonio sut gall e/hi gyfrannu at gadw cydweithwyr a chwsmeriaid yn ddiogel ac yn iach
- 3.4 cyfrannu at asesiad risg
- 3.5 gweithio'n ddiogel gan ddilyn canllawiau.
- 3.6 esbonio a dilyn gweithdrefnau brys.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Mae'r uned hon yn ffocysu ar rai o hawliau a chyfrifoldebau unigolion fel cyflogaion.

Does dim angen i ddysgwyr wybod manylion y gyfraith ond dylent fod yn ymwybodol o amrywiaeth o Hawliau a chyfrifoldebau cyflogaion.

Ar gyfer maen prawf 1.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** amrywiaeth o hawliau cyflogaion. Gallai'r rhain gynnwys gweithle diogel a sicr, cytundeb cyflogaeth, cyfleoedd cyfartal.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** sut caiff hawliau cyflogaion eu gwarchod gan y gyfraith. Gallai hyn gynnwys y deddfau ar asiantaethau gorfodi e.e. Gweithredaeth Iechyd a Diogelwch, Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 a 2.2 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer maen prawf 2.1 mae angen i'r ymgeisydd **restru** amrywiaeth o gyfrifoldebau cyflogaion. Gallai'r rhain gynnwys iechyd a diogelwch a diogelu data.

Ar gyfer 2.2 mae angen i'r ymgeisydd **ddisgrifio** ei g/chyfrifoldebau tuag at ei fan/man dysgu neu waith, e.e. gweithio yn ôl canllawiau iechyd a diogelwch y sefydliad, gan gadw gwybodaeth berthnasol yn gyfrinachol.

Ar gyfer 2.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** pam mae hi'n bwysig cadw peth gwybodaeth yn gyfrinachol.

Gall tystiolaeth ar gyfer 2.1 i 2.3 fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer maen prawf 3.1 mae angen i'r ymgeisydd **nodi** ac ymateb i beryglon yn ei f/man dysgu neu weithio e.e. rhoi gwybod am wifrau'n llusgo, rhoi gwybod am offer anniogel. Gall y peryglon hyn fod yn real neu'n efelychiannol.

Ar gyfer 3.2 mae angen i'r ymgeisydd **restru** gofynion am iechyd a diogelwch personol yn ei f/man gweithio neu ddysgu e.e. gwisgo offer amddiffyn personol (PPE), cymryd egwylliau'n gyson.

Ar gyfer 3.3 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio** sut gall e/hi gyfrannu at gadw cydweithwyr a chwsmeriaid yn ddiogel ac yn iach e.e. trwy esbonio gweithdrefnau tân i ymwelwyr, trwy wybod sut i gael gafael ar ddarpariaeth cymorth cyntaf.

Ar gyfer 3.4 mae angen i'r ymgeisydd **gyfrannu** at asesiad risg o ran darparu gwybodaeth i berson mewn safle o gyfrifoldeb.

Gall tystiolaeth 3.1 i 3.4 fod ar lafar neu'n ysgrifenedig a gall fod yn ddatganiad ymgeisydd neu'n gofnod o holi.

Ar gyfer 3.5 mae angen i'r ymgeisydd **weithio'n ddiogel** gan ddilyn Canllawiau iechyd a diogelwch, h.y. dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch y sefydliad a defnyddio PPE os yw'n briodol.

Ar gyfer 3.6 mae angen i'r ymgeisydd **esbonio a dilyn** gweithdrefnau brys. e.e. esbonio pwrpas a chymryd rhan mewn dril tân.

Gall tystiolaeth ar gyfer ar gyfer 3.5 a 3.6 fod yn ddatganiad ymgeisydd ac arsylwad aseswr.

<b>RHAU:</b>	T/506/2787
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	30
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o effeithiau niweidiol camddefnyddio alcohol a'r materion iechyd cysylltiedig.
<b>Aseiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>336</b> Mynediad 3 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol</li> <li>• <b>526</b> Lefel 2 Ymwybyddiaeth o alcohol</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gwybod y gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn a diodydd alcoholig
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 amlinellu'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall <b>canllawiau</b> cyfredol am alcohol
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 rhoi enghreifftiau o ddeddfau cyfredol ar alcohol 2.2 nodi'r <b>unedau a argymhellir</b> i ddynion 2.3 nodi'r <b>unedau a argymhellir</b> i fenywod.

<b>Cwmpas</b> –
<b>2. canllawiau</b> - rheol gyffredinol, darn o gyngor. 2.2 a 2.3 <b>unedau a argymhellir</b> – terfynau diogel a awgrymir am gymryd alcohol yn wythnosol.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. deall effeithiau alcohol

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 rhoi enghreifftiau o effeithiau alcohol ar y corff dynol

3.2 rhestru arwyddion gwenwyno trwy alcohol

3.3 rhoi enghreifftiau o effeithiau **seicolegol** alcohol

3.4 rhowch enghreifftiau o yfed **cyfrifol**.

### Cwmpas

3.3 **seicolegol** – cyflwr meddyliol neu emosiynol person.

3.4 **cyfrifol** - bod â chyfrifoldeb, gofal neu reolaeth ar rywun neu rywbeth.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. deall effaith y gall camddefnyddio alcohol ei chael ar bobl eraill

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

**4.1** rhoi enghreifftiau o **effaith camddefnyddio** alcohol.

### Cwmpas

4.1 ~~effaith~~ - effaith neu ddylanwad un person, peth, neu weithred ar berson arall.

4.1 **camddefnyddio** - defnyddio rhywbeth at y diben anghywir.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. gwybod ble i gael help, cyngor a gwybodaeth i wrthsefyll camddefnyddio alcohol

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

5.1 rhoi enghreifftiau o ble gallwch chi gael cefnogaeth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio alcohol.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr amlinellu'r gwahaniaeth rhwng diodydd ysgafn ac alcoholig e.e. diod ysgafn - un nad yw'n cynnwys unrhyw alcohol fel lemonêd,-coke, llaeth; diod alcoholig - un sy'n cynnwys alcohol fel gwin, chwisgi, fodca. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ddeddfau cyfredol ar alcohol e.e. Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Traffig Heolydd 1988. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **nod**i'r unedau a argymhellir i ddynion e.e. hyd at 21 o unedau yr wythnos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **nod**i'r unedau a argymhellir i fenywod e.e. hyd at 14 o unedau yr wythnos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau alcohol ar y corff dynol e.e. ar yr ymennydd fel newidiadau ysbryd ac ymddygiad, ar y galon fel curiad calon afreolaidd, strôc, pwysedd gwaed uchel, ar yr afu fel sirosis, hepatitis alcoholig, ar y pancreas fel pancreatitis, ar eich system imiwn ac yn fwy agored i haint, mewn cynnydd cyffredinol o risg canser fel y geg, oesoffagws, llwnc, afu, brest, analluedd mewn dynion, niwed i'r ffetws heb ei eni mewn menywod beichiog, niwed i'r ymennydd o ganlyniad i diffyg B2. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **restru** arwyddion gwenwyno trwy alcohol e.e. dryswch, colli cydlynedd, chwydu, ffitiau, anadlu afreolaidd neu araf, croen yn glasu neu'n welw, tymheredd corff isel, syrthni (ymwybodol ond ddim yn ymateb).  
Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau seicolegol alcohol e.e.colli ataliad, cynnydd mewn ymosodedd a thrais, cynnydd mewn pryder, hwyliau'n newid, iselder, ymddygiad rhywiol heb ataliad/colli diddordeb mewn rhyw, amharu ar y cof a chydlynid synhwyraidd-weithredol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 3.4 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o yfed cyfrifol e.e. yfed gyda ffrindiau i gadw golwg ar ei gilydd, defnyddio system fydi i dynnu sylw'i gilydd at broblemau, gwybod eich terfynau, gwybod sut i fynd adre, peidio byth â gyrru o dan ddylanwad alcohol, gwybod terfynau diogel, peidio ag yfed o dan oed, os ydych chi mewn ysbryd meddwl negyddol, ar stumog wag, os ydych chi'n flinedig iawn, gwirio gyda'ch meddyg os ydych chi'n cymryd meddyginiaeth presgripsiwn, aros yn hydradol, gwybod beth rydych chi'n ei yfed, yfed gan bwyll, osgoi gemau yfed. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effaith camddefnyddio alcohol e.e. teulu'n torri ac ysgariad, cam-drin yn y cartref, diweithdra, digartrefedd, problemau ariannol, anaf, trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhyw anniogel, colli eiddo personol, amser i ffwrdd o'r gwaith/coleg heb ei gynllunio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ble gallwch chi gael cefnogaeth, cyngor a thriniaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio alcohol e.e. Drinkline, Addaction, Alcoholics Anonymous, Al-Anon, Pryder Alcohol, Dewisiadau GIG, ADFAM, Cymdeithas Genedlaethol Plant Alcoholigion, Alcohol Focus Scotland, Talk to Frank, Samariaid, Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru, Yfed Doeth Cymru. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

<b>RHAU:</b>	K/506/2706
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	9
<b>Nod:</b>	Bydd y dysgwr yn gallu deall pam mae hi'n bwysig gwneud penderfyniadau effeithiol.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

1. deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 nodi rhesymau dros wneud penderfyniadau
- 1.2 rhoi enghreifftiau o **sefyllfaoedd** sy'n gofyn am benderfyniad.

**Cwmpas**

- 1.2 **sefyllfaoedd** - addysg, cymdeithasol, perosnol, gwaith, dyddiol, newid bywyd ac ati.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

2. gwybod sut i adnabod gwneud penderfyniadau effeithiol

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 rhoi enghreifftiau o wneud penderfyniad **effeithiol**
- 2.2 rhoi enghreifftiau o wneud penderfyniad **aneffeithiol**.

**Cwmpas**

- 2.1 **effeithiol** - cyflawni'r canlyniad a ddymunir
- 2.2 **aneffeithiol** - cyflawni'r canlyniad a ddymunir yn rhannol neu fethu

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

3. deall yr angen i adolygu'r broses gwneud penderfyniadau
--

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

3.1 amlinellu pwysigrwydd <b>adolygu'r</b> broses gwneud penderfyniadau.
--

<b>Cwmpas</b> _
-----------------

3.1 <b>adolygu</b> – asesu beth aeth yn dda a beth nad aeth gystal.
---

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi'r** rhesymau o blaid gwneud penderfyniadau e.e. dod i gytuneb, ffurfio consensws, penderfynu ar gamau gweithredu, symud pethau ymlaen i gyrraedd nodau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o sefyllfaoedd sy'n gofyn am benderfyniad. e.e. pa gwrs i'w gymryd, swydd i wneud cais amdani, cyrchfan gwyliau, ffilm i'w gwyllo yn y sinema. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ar lafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o wneud penderfyniadau effeithiol e.e. dewis y cwrs cywir, cael y swydd a ddymunwyd, penderfynu cymryd rôl wahanol yn y gwaith i gael dyrchafiad, gweithio oriau hirach i gwrdd â therfynau amser. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o benderfyniadau aneffeithiol e.e. dewis y cwrs anghywir ar gyfer y math o swydd a ddymunwyd, penderfynu peidio â chymryd rôl ychwanegol yn y gwaith gan fethu cael dyrchafiad, penderfynu peidio â gweithio oriau hirach a methu cwrdd â therfynau amser. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad llafar neu ysgrifenedig y dysgwr, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** pwysigrwydd adolygu'r broses gwneud penderfyniadau e.e. i wella'r broses gwneud penderfyniadau, i archwilio a fyddai gwybodaeth ychwanegol neu wahanol wedi helpu cyn gwneud penderfyniad, trwy ystyried beth a'i gwnaeth yn benderfyniad da neu wael. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

## Uned 444

## Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau

<b>RHAU:</b>	M/506/2707
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	12
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o effeithiau niweidiol camddefnyddio cyffuriau a materion iechyd cysylltiedig.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>336</b> Mynediad 3 Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol</li><li>• <b>525</b> Lefel 2 Ymwybyddiaeth o gyffuriau</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gwybod y gwahaniaeth rhwng cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio beth yw cyffur 1.2 rhoi enghreifftiau o gyffuriau <b>cyfreithlon</b> 1.3 rhoi enghreifftiau o gyffuriau <b>anghyfreithlon</b> .

<b>Cwmpas</b>
1.2 <b>cyfreithlon</b> - ddim yn torri'r gyfraith. 1.3 <b>anghyfreithlon</b> - yn torri'r gyfraith.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall dosbarthiad cyfredol cyffuriau a'r gyfraith
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 amlinellu'r gwahaniaethau rhwng <b>dosbarthiadau cyffuriau</b> 2.2 rhoi enghreifftiau o gyffur o bob dosbarthiad.

<b>Cwmpas</b>
---------------

2.1 dosbarthiad cyffuriau - O dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, caiff cyffuriau anghyfreithlon eu rhoi mewn un o 3 dosbarth - A, B neu C.
--

<b>Canlyniad Dysgu</b>	–
Bydd y dysgwr yn:	3. deall effeithiau camddefnyddio cyffuriau
<b>Meini prawf asesu</b>	
Mae'r dysgwr yn gallu:	3.1 rhoi enghreifftiau o effeithiau <b>camddefnyddio</b> alcohol.

<b>Cwmpas</b>
3.1 <b>camddefnyddio</b> - defnyddio rhywbeth at y diben anghywir

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn:
4. deall effaith camddefnyddio cyffuriau
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu:
4.1 rhoi enghreifftiau o <b>effaith</b> camddefnyddio cyffuriau.

<b>Cwmpas</b>
4.1 <b>effaith</b> - effaith neu ddylanwad un person, peth, neu weithred ar berson arall

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn:
5. gwybod ble i gael help, cyngor a gwybodaeth i ymladd camddefnyddio cyffuriau
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu:
5.1 rhoi enghreifftiau o ble gallwch chi gael gwybodaeth am driniaeth a chefnogaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffuriau.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **ddiffinio** beth yw cyffur e.e. meddyginiaeth neu sylwedd arall sy'n cael effaith seicolegol pan gaiff ei lyncu neu ei roi i'r corff mewn ffordd arall. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyffuriau cyfreithlon e.e. paracetamol, aspirin, gwrthfoteg, baco ac alcohol (os o'r cywir oed). Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyffuriau anghyfreithlon. e.e. canabis, heroin, mariwana, amffetaminau, cocên, ecstasi. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu'r** gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cyffuriau e.e. eu bod wedi'u seilio'n fras ar y niwed maen nhw'n ei achosi naill ai i'r defnyddiwr neu i gymdeithas pan maen nhw'n cael eu camddefnyddio. Mae'r dosbarth y caiff cyffur ei roi iddo'n effeithio ar fwyafswm y gosb am drosedd yn cynnwys cyffur. Er enghraifft, mae cyffuriau dosbarth A yn denu'r gosb fwyaf difrifol gan yr ystyrir eu bod yn debygol o achosi'r niwed mwyaf difrifol. Mae cyffuriau a reolir o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau yn anghyfreithlon i'w meddiannu, eu cynhyrchu, eu rhoi i ffwrdd neu eu gwerthu. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn, yn dabl.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o gyffur o bob dosbarthiad. e.e. A = heroin , B = canabis, C = catamin. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau camddefnyddio cyffuriau e.e. bydd effeithiau corfforol yn dibynnu ar y cyffuriau sy'n cael eu cymryd ond gallent gynnwys pendro a chwydu, panig a pharanoia, colli cydlyniant, clefyd ysgyfaint a chanser yr ysgyfaint, problemau anadlu, pwysedd gwaed uchel ac anffrwythlonder, rhythweledigaeth, torri rhydweliâu gwaed, insomnia, iselder, colli pwysau a diffyg maeth, analluedd mewn dynion. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effaith camddefnyddio cyffuriau e.e. dibyniaeth, ofni peidio â defnyddio cyffuriau, agwedd negyddol neu wedi'i newid at fywyd, hunanladdiad, colli cymhelliad, perfformiad gwael yn y gwaith neu'r ysgol, problemau gyda pherthnasoedd, benthyca neu ddwyn arian gan ffrindiau a'r teulu, bod yn gyfrinachol am weithgareddau a gweithredoedd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o ble gallwch chi gael gwybodaeth am driniaeth a chefnogaeth i helpu i oresgyn camddefnyddio cyffuriau e.e. Llinell Gymorth Cyffuriau Cenedlaethol, GIG, Narcotics Anonymous, Addaction. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr ar lafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl, yn ddelweddau gyda thestun.

## Uned 445

## Deall trosedd a'i effeithiau

<b>RHAU:</b>	L/506/2665
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	18
<b>Nod:</b>	Bydd gan y dysgwyr ddealltwriaeth o effeithiau trosedd ar y dioddefwr a'r troseddwr.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. deall pam mae pobl yn gallu bod mewn risg o gymryd rhan mewn trosedd
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi enghreifftiau o beth sy'n gallu arwain pobl i droseddu.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. deall effeithiau trosedd
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio effeithiau trosedd ar y dioddefwr/wyr. 2.2 disgrifio effeithiau trosedd ar y troseddwr.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. deall y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr a throseddwyr
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 adnabod y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i droseddwr neu'r rhai mewn risg o droseddu 3.2 adnabod y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i ddioddefwyr trosedd.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o beth sy'n gallu arwain pobl i droseddu e.e. tlodi, camddefnyddio/bod yn gaeth i gyffurfiau ac alcohol, problemau iechyd meddwl, pwysau cymheiriaid, diffyg addysg, ymddygiad wedi'i ddysgu, materion personol/teulu, eiddigedd.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau trosedd ar y dioddefwr/wyr. e.e. ofn, trawma meddyliol/corfforol, ofn troseddau pellach, colli hyder, teimlad o annigonolrwydd, drwgdybus, llai ymddiriedol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau trosedd ar y troseddwr e.e. carcharu, dirwyon, gwasanaeth cymunedol, edifeirwch, effaith ar y teulu a ffrindiau, cyhoeddusrwydd, colli swydd, anhawster dod o hyd i gyflogaeth oherwydd record droseddol, colli trwydded yrru, premiymau yswiriant uwch, cyrffiw, talu iawndal. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i droseddwr neu'r rhai sydd mewn risg o droseddu e.e. gwasanaeth prawf, Cymrodoriaeth Carchar, Ymddiriedolaeth Diwygio Carchar, Nacro, Ymddiriedolaeth St Giles, Bridging the Gap, Unlock, Freshwinds, Young Minds, yr heddlu, sefydliadau lleol. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **adnabod** y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i ddioddefwyr trosedd e.e. Cefnogaeth i Ddioddefwyr, yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Cymdeithas Cefnogi Dioddefwyr Trosedd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

<b>RHAU:</b>	F/506/2789
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Bydd y dysgwyr yn defnyddio defnyddiau ac offer ar gyfer gweithgaredd y cytunwyd arno
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. gwybod sut i ddefnyddio deunyddiau ac offer ar gyfer gweithgaredd
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 adnabod <b>gweithgaredd ymarferol</b> 1.2 adnabod pa ddeunyddiau ac offer sydd eu hangen ar gyfer gweithgaredd 1.3 nodi sut bydd y deunyddiau a'r offer yn cael eu defnyddio mewn gweithgaredd.

<b>Cwmpas</b>
1.1 <b>gweithgaredd ymarferol</b> – o fewn dosbarth, yn yr awyr agored, man gwaith neu amgylchedd wedi'i efelychu ac ati.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. gallu adolygu'r defnydd o ddeunyddiau ac offer
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 defnyddio deunyddiau ac offer mewn gweithgaredd 2.2 amlinellu sut cafodd deunyddiau ac offer eu defnyddio 2.3 adnabod deunyddiau amgen, offer a/neu dechnegau a allai fod wedi cael eu defnyddio i wella'r gweithgaredd.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** gweithgaredd ymarferol e.e. plymio, arlwyyo, chwaraeon, trwsio moduron, trin gwallt, gofal anifeiliaid, saer, ymarferion o fath milwrol, digwyddiad codi arian, gweithgareddau datrys problemau e.e. adeiladu tŵr gyda phapur newydd neu bont â gwellt. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **nodi** pa ddeunyddiau ac offer sydd eu hangen ar gyfer gweithgaredd e.e. gwaith pibau a weldio, cynhwysion a phowlen a llwy, paent a pheiriant peinto llinellau ar gyfer cae pêl-droed, offer trwsio a jac teiars, cannydd a ffoiliau gwallt, pren a llif, sebon a brwsh, tâp gludiog a rhaff. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** sut bydd y deunyddiau a'r offer yn cael eu defnyddio yn y gweithgaredd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig neu'n gofnod aseswr. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddefnyddio** deunyddiau ac offer. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr **gyda** chofnod aseswr, datganiad tyst gan berson priodol, fideo neu ffotograffau.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** sut cafodd deunyddiau ac offer eu defnyddio. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **nodi** deunyddiau amgen, a/neu dechnegau a allai fod wedi cael eu defnyddio i wella'r gweithgaredd. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn. Gellir defnyddio delweddau mewn cyswllt â'r testun.

Gellid cwrdd â'r meini prawf trwy weithgaredd yn y man dysgu neu waith.

## Uned 447

## Deall anhwylderau bwyta

<b>RHAU:</b>	A/506/2788
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	10
<b>Nod:</b>	Nod yr uned yw datblygu ymwybyddiaeth y dysgwr o anhwylderau bwyta.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. gallu adnabod gwahanol fathau o anhwylderau bwyta

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 adnabod gwahanol fathau o **anhwylderau bwyta**
- 1.2 adnabod nodweddion gwahanol fathau o **anhwylderau bwyta**.

### Cwmpas

- 1.1 a 1.2 **anhwylderau bwyta** – amrywiaeth o gyflyrau seicolegol wedi'u nodweddu gan arferion bwyta abnormal neu rai wedi'u hamharu.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. deall effeithiau corfforol anhwylderau bwyta

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 amlinellu risgiau iechyd cysylltiedig ag anhwylderau bwyta.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. deall effeithiau emosiynol anhwylderau bwyta

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 rhoi enghreifftiau o effeithiau emosiynol anhwylder bwyta.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 4. adnabod problemau sy'n gallu arwain at anhwylder bwyta
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 4.1 rhestru amrywiaeth o ffactorau sy'n gallu arwain at anhwylder bwyta.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 5. gwybod y ffynonellau cymorth sydd ar gael i ymladd anhwylderau bwyta
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 5.1 rhestru ffynonellau o gymorth a chynghor i oresgyn anhwylderau bwyta.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** gwahanol fathau o anhwylderau bwyta e.e. Anorexia Nervosa, sbri o fwyta/ anhwylder gwagio, Bulimia Nervosa, Syndrom Bwyta Nos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **adnabod** nodweddion gwahanol fathau o anhwylderau bwyta e.e. Anorexia Nervosa - ofn cynyddu mewn pwysau, ddim yn bwyta digon, delwedd wael o'r corff, hunan-barch isel, sbri o fwyta/anhwylder gwagio - bwyta symiau mawr o fwyd, chwydu wedi'i gymell ei hun, teimlo allan o reolaeth, teimladau o gywilydd ac euogrwydd, Bulimia Nervosa - bwyta symiau mawr o fwyd, chwydu wedi'i gymell ei hun, teimlo allan o reolaeth, delwedd wael o'r corff, Syndrom Bwyta Nos, bwyta gormod yn y nos. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** risgiau iechyd cysylltiedig ag anhwylderau bwyta e.e. mae chwydu parhaus yn niweidio'r dannedd a'r oesoffagws, mae diffyg maeth yn arwain at ddwysedd esgyrn isel, colli gwallt, anffrwythlondeb, amrywiaeth cylchred y mislif, colli/gwendid cyhyrau, pwysedd gwaed isel, curiad calon araf, dadhydradu difrifol, methiant yr afu, llewygu, blinder, colesterol uchel, diabetes math II, symud ymysgaroedd anghyson parhaus, gwasgedd gwaed uchel a chlefyd y galon. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **roi enghreifftiau** o effeithiau emosiynol anhwylder bwyta e.e. iselder, pryder, tymer flin, cywilydd, euogrwydd, ffeidd-dod, hunan-barch isel, teimlo allan o reolaeth, teimlo'n chwithig, anobeithdra. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn fap meddwl.

Ar gyfer maen prawf 4.1 rhaid i'r dysgwr **restru** amrywiaeth o ffactorau sy'n gallu arwain at anhwylder bwyta e.e. hunan-barch isel, teimlad o annigonolrwydd, diffyg rheolaeth mewn bywyd, iselder, pryder, dicter, straen, unigrwydd, perthnasoedd personol trafferthus, bwlio am faint neu bwysau, hanes o gam-drin corfforol a/neu rywiol, pwysau diwylliannol cyfryngau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corryn

Ar gyfer maen prawf 5.1 rhaid i'r dysgwr **restru** ffynonellau cymorth a chyngor i oresgyn anhwylderau bwyta e.e. Mind, GIG, Canolfan Geneldaethol am Anhwylderau Bwyta a Supportline. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr neu'n ddiagram corryn

<b>RHAU:</b>	Y/506/6234
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	30
<b>Nod:</b>	Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth o symptomau ac achosion straen a sut i ymlacio a defnyddio strategaethau ymdopi.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall ac adnabod symptomau straen.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 Nodi beth yw ystyr straen 1.2 Rhestru <b>symptomau</b> straen 1.3 Rhoi enghreifftiau o sut mae straen yn newid <b>ymddygiad</b> .

<b>Cwmpas</b>
1.2 <b>Symptomau:</b> yn cynnwys emosiynau, ymddygiad ac iechyd corfforol. 1.3 <b>Ymddygiad:</b> yn cynhyrfu'n hawdd, ffrwydriad emosiynol, trais.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Deall effaith straen ar unigolyn.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 Amlinellu effeithiau <b>byr-dymor</b> straen 2.2 Amlinellu effeithiau <b>hir-dymor</b> straen 2.3 Disgrifio sut mae achosion o straen yn gallu amrywio rhwng pobl.

“ increase in

<b>Cwmpas</b>
2.1 Mae <b>effeithiau byr-dymor</b> yn cynnwys: “ffoi neu ymladd”, cur pen, cynnydd yng nghuriad y galon 2.2 Mae <b>effeithiau hir-dymor</b> yn cynnwys: newid hwyl, colli cof, camddefnyddio sylweddau

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu adnabod gwahanol dechnegau rheoli straen.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 Amlinellu amrywiaeth o <b>dechnegau</b> rheoli straen 3.2 Adnabod gwasanaethau cefnogaeth sydd ar gael i helpu gyda rheoli straen.

<b>Cwmpas</b>
3.1 Mae <b>technegau</b> 'n cynnwys: ymlacio, ymarfer, cymryd amser i ffwrdd e.e. darllen, gwrando ar gerddoriaeth, mynd allan.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **nodi** ystyr y term straen e.e. pryder, adwaith y meddwl a'r corff i sefyllfaoedd, y byggythiad anhysbys.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **restru** o leiaf 2 symptom am bob categori o fewn yr amrywiaeth e.e. newidiadau i ymddygiad arferol fel pegynau hwyliau'n effeithio ar ymddygiad.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr roi enghraifft am bob categori o fewn yr amrywiaeth e.e. pobl yn colli eu tymer yn hawdd dros ddigwyddiad bach.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr amlinellu effeithiau byr-dymor straen ar y corff a lles cyffredinol.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr amlinellu effeithiau hir-dymor straen ar y corff a lles cyffredinol.

<b>RHAU:</b>	L/506/8126
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	6
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o wrthdaro yn y man gwaith a sut mae hyn yn gallu cael ei atal.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r unedau canlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>524</b> Lefel 2 Deall gwrthdaro yn y gweithle</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall achos ac effaith gwrthdaro yn y gweithle.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 diffinio achosion cyffredin gwrthdaro rhwng unigolion 1.2 diffinio achosion cyffredin gwrthdaro rhwng grwpiau/timau 1.3 nodi <b>effeithiau</b> gwrthdaro ar unigolion 1.4 nodi <b>effeithiau</b> gwrthdaro ar grŵp/tîm.

<b>Cwmpas</b>
1.3 ac 1.4 <b>mae effeithiau'n cynnwys:</b> cymhelliad a chynhyrchedd.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Adnabod mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 adnabod beth yw ymddygiad derbyniol yn y gweithle 2.2 adnabod mathau o ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith.

### **Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall sut mae modd rhwystro gwrthdaro mewn sefyllfa waith.

### **Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 esbonio **dulliau** y gellir eu defnyddio mewn sefyllfa waith i atal gwrthdaro
- 3.2 disgrifio **cyfrifoldebau** cyflogwyr gan gyfeirio at wrthdaro yn y gweithle.

### **Cwmpas**

3.1 **Dulliau'n cynnwys:** ffurfiol/anffurfiol.

3.2 **Cyfrifoldebau'n cynnwys:** delio â'r mater, cyfathrebu gweithdrefnau a pholisïau.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** o leiaf dair enghraifft o achosion cyffredin gwrthdaro rhwng unigolion, gallai'r rhain gynnwys: cyfathrebu gwael, rheoli gwael, triniaeth annheg, rolau swydd aneglur, hyfforddi annigonol, cyfathrebiadau gwael, amgylchedd gwaith gwael, diffyg cyfle cyfartal, bwlio ac aflonyddu.

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **esbonio** o leiaf dair enghraifft o achosion cyffredin gwrthdaro rhwng grwpiau/timau, gallai'r rhain gynnwys: cystadleuaeth rhwng cydweithwyr, anghytundeb am nodau neu werthoedd tîm a rennir, drwgdeimlad nad yw un tîm yn tynnu'i bwysau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau gwrthdaro ar unigolion. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** effeithiau gwrthdaro ar grwpiau/timau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** beth yw ymddygiad derbyniol yn y gweithle, gallai'r rhain gynnwys: cod ymddygiad, cyfathrebu geiriol, gwisg. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** mathau ymddygiad sy'n annerbyniol mewn sefyllfa waith, gallai'r rhain gynnwys: sarhau rhywun ar lafar, bwlio, aflonyddu, ynysu rhywun yn y gwaith.

Ar gyfer meini prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **esbonio** sut gellid rhwystro gwrthdaro mewn sefyllfa waith yn ffurfiol ac yn anffurfiol, e.e. yn ffurfiol trwy weithdrefn gwyno'r cwmni, yn anffurfiol gallai fod trwy drafodaethau gyda'r partïon o dan sylw. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer meini prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **ddisgrifio** cyfrifoldebau cyflogwyr gan gyfeirio at wrthdaro yn y gweithle, gan roi o leiaf un enghraifft am bob un o amrywiaeth o osodiadau. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

## Uned 450

## Deall cyllid personol ar gyfer cyflogaeth

<b>RHAU:</b>	R/506/8127
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	12
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o gyllid personol mewn perthynas ag incwm cyflogaeth.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall cyflog wedi'i fynegi mewn gwahanol ffyrdd.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 adnabod **termau** cysylltiedig ag arian **sy'n cael eu defnyddio** mewn hysbysebion swyddi
- 1.2 gweithio allan dâl wythnosol o gyflog blynyddol
- 1.3 gweithio allan gyfradd fesul awr o dâl wythnosol
- 1.4 amcangyfrif cyflog blynyddol o gyfradd fesul awr.

### Cwmpas

- 1.1 **Termau a ddefnyddir:** y fl, yr wythnos, yr awr, £k, crynswth, net.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall slip tâl.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 adnabod y cyfanswm crynswth i'w dalu
- 2.2 adnabod y didyniadau a wneir o slip tâl
- 2.3 amlinellu ar gyfer beth mae'r didyniadau
- 2.4 adnabod swm net y tâl
- 2.5 gwirio cyfrifiadau slip tâl am gywirdeb.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. . Gwybod sut i greu cyllideb i dalu am dreuliau cysylltiedig â gwaith

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 cymharu **gwahanol wariant** ar gyfer teithio
- 3.2 llunio cynllun cyllideb i reoli **treuliau cysylltiedig â gwaith** dros gyfnod pum niwrnod
- 3.3 gwirio cyfrifiadau am gywirdeb.

### Cwmpas

- 3.1 **Gwahanol wariant:** e.e. cost tocyn wythnosol o'i gymharu â 10 tocyn sengl neu gost trê'n o'i gymharu â bws.
- 3.2 **Treuliau cysylltiedig â gwaith:** e.e. teithio i'r gwaith ac yn ôl, bwyd a diod.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** termau cysylltiedig ag arian sy'n cael eu defnyddio mewn hysbysebion swyddi e.e. yr awr, yr wythnos, y fl, crynswth, net, k, pro rata. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn boster wedi'i anodi neu'n ddiagram corryn.

Ar gyfer maen prawf 1.2 rhaid i'r dysgwr **weithio allan** y tâl wythnosol o gyflog blynyddol e.e. wedi ei gymryd o hysbyseb swydd yn 1.1. Gall tystiolaeth fod yn gyfrifiad wedi'i gwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannell neu gyfrifiadur e.e. £15600 wedi'i rannu gan 52 = £300 yr wythnos.

Ar gyfer maen prawf 1.3 rhaid i'r dysgwr **weithio allan** y tâl yr awr o gyflog wythnosol e.e. wedi ei gymryd o hysbyseb swydd yn 1.1. Gall tystiolaeth fod yn gyfrifiad wedi'i gwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannell neu gyfrifiadur e.e. £400 yr wythnos wedi'i rannu â 40 awr = £10 yr awr.

Ar gyfer maen prawf 1.4 rhaid i'r dysgwr **amcangyfrif** y cyflog blynyddol o gyfradd yr awr e.e. wedi'i gymryd o hysbyseb swydd yn 1.1 Gall tystiolaeth fod yn gyfrifiad wedi'i gwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannell neu gyfrifiadur e.e. mae £9.95 yr awr tua £10 x 40 x 50 = £20000 y fl.

Ar gyfer maen prawf 2.1 rhaid i'r dysgwr **adnabod** y cyfanswm crynswth i'w dalu e.e. ar eu slip tâl eu hunain neu sampl o slip tâl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn slip tâl wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.2 rhaid i'r dysgwr **adnabod** y didyniadau sy'n cael eu gwneud e.e. ar eu slip tâl eu hunain neu sampl o slip tâl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn slip tâl wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.3 rhaid i'r dysgwr **amlinellu** am beth mae'r didyniadau hyn e.e. didyniadau am dreth ac Yswiriant Cenedlaethol ar eu slip tâl eu hunain neu sampl o slip tâl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn slip tâl wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.4 rhaid i'r dysgwr **nodi** cyfanswm net y tâl e.e. ar eu slip tâl eu hunain neu sampl o slip tâl. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn slip tâl wedi'i anodi.

Ar gyfer maen prawf 2.5 rhaid i'r dysgwr **wirio** cyfrifiadau slip tâl am gywirdeb. e.e. ar eu slip tâl neu sampl o slip tâl. Gall tystiolaeth fod yn gyfrifiadau wedi'u cwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannell neu gyfrifiadur.

Gallai tystiolaeth am ganlyniad dysgu w fod yn llungopi o slip tâl y dysgwr, wedi'i anodi i gwmpasu 2.1 - 2.4 a chyfrifiadau sy'n cyd-fynd ar gyfer 2.5.

Ar gyfer maen prawf 3.1 rhaid i'r dysgwr **gymharu** gwahanol wariant am deithio. Dylai'r dysgwr ystyried o leiaf ddau ddewis gwahanol. Gallai'r rhain gynnwys moddau cludiant e.e. bws, trên, neu fathau o docynnau e.e. sengl, dychwel, wythnosol, misol. Os gall y dysgwyr gerdded i'r man gweithio, dylai'r dysgwr roi tystiolaeth am y meini prawf hyn trwy ystyried lleoliad arall. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn allbrintiau neu'n daflenni'n dangos costau, cyfrifiadau wedi'u cwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannll neu gyfrifiadur.

Ar gyfer maen prawf 3.2 rhaid i'r dysgwr **lunio** cynllun cyllideb i reoli gwaith cysylltiedig â gwariant dros gyfnod 5 diwrnod. Dylai dysgwr ystyried ei dreuliau ei hun, treuliau posibl neu astudiaeth achos. Gall tystiolaeth fod yn gynllun cyllideb syml yn dangos treuliau e.e. cludiant (efallai o 3.1), diodydd, cinio, byrbrydau, neu unrhyw wariant arall.

Ar gyfer maen prawf 3.3 rhaid i'r dysgwr **wirio**'r cyfrifiadau yn 3.2 am gywirdeb. Gall tystiolaeth fod yn gyfrifiadau wedi'u cwblhau â llaw, gan ddefnyddio cyfrifiannell neu gyfrifiadur.

## Uned 451 Byw'n bendant

<b>RHAU:</b>	Y/506/8128
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	27
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw codi ymwybyddiaeth am wahanol fathau o ymddygiad a sut mae'r mathau hyn o ymddygiad a hunan-barch yn effeithio ar fywyd bob dydd a nodau gyrfa a sut mae straen yn gallu cael effaith negyddol.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall gwahanol fathau o <b>ymddygiad</b> .
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhestru prif nodweddion gwahanol fathau o <b>ymddygiad</b> .

<b>Cwmpas</b>
1.1 <b>Ymddygiad</b> Goddefol, pendant, ymosodol

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Deall ystyr y term 'hunan-barch' a sut mae modd ei wella.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 diffinio'r term hunan-barch 2.2 disgrifio ffactorau sy'n dylanwadu ar hunan-barch person 2.3 nodi sut mae modd gwella hunan-barch.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

3. Gwybod am straen a ffyrdd o'i leihau.
--

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

3.1 disgrifio beth yw straen
------------------------------

3.2 amlinellu achosion straen
-------------------------------

3.3 adnabod ffyrdd o leihau straen.
-------------------------------------

<b>Canlyniad Dysgu</b>
------------------------

Bydd y dysgwr yn:
-------------------

4. Deall manteision bod yn bendant.
-------------------------------------

<b>Meini prawf asesu</b>
--------------------------

Mae'r dysgwr yn gallu:
------------------------

4.1 nodi manteision bod yn bendant.
-------------------------------------

<b>Cwmpas</b>
---------------

4.1 Mae'r <b>manteision</b> yn cynnwys: personol a gyrfa.
---

# Uned 451 Byw'n bendant Gwybodaeth ategol

## Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer maen prawf 1.1 rhaid i'r dysgwr **restru** dwy enghraifft o nodweddion ym mhob un o'r gosodiadau cwmpas. Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddatganiad neu'n gofnod aseswr.

Ar gyfer 1.2 a 2.2 mae'r dysgwr yn gallu nodi a dangos manteision defnyddio iaith briodol mewn amgylchedd gweinyddu busnes mewn cyfathrebu ysgrifenedig a llafar. Dylai hyn gynnwys proffesiynoldeb, cywirdeb, cyd-destun ac ati.

Ar gyfer 2.1 a 2.2 mae'r dysgwr yn gallu dangos ffyrdd o gyfathrebu gyda gwahanol lefelau o gydweithwyr gan ddefnyddio dulliau priodol i'r sefyllfa e.e. rhyngweithio wyneb yn wyneb, ffôn, cyfathrebu electronig, hysbysfyrddau, cymryd negeseuon, mewn cyfarfodydd. Mae iaith briodol yn cynnwys iaith y corff, tòn llais, ystumiau, astudrwydd, iaith ysgrifenedig mewn tòn ac arddull priodol i'r sefyllfa. Gall tystiolgaeth gynnwys y defnydd o chwarae rôl, tystiolaeth tyst, tystiolaeth fideo neu dull derbyniol arall.

Ar gyfer 1.3 mae'r dysgwr yn gallu nodi anfanteision defnyddio iaith amhriodol mewn amgylchedd gweinyddu busnes (gan roi a derbyn negeseuon anghywir, amhroffesiynoldeb, credadwyedd, enw da personol/y sefydliad ac ati).

Ar gyfer 2.2 mae'r dysgwr yn gallu dangos y defnydd o iaith briodol ar gyfer amgylchedd gweinyddu busnes. Er enghraifft ffurfiol/anffurfiol, cynnwys tòn ac ati.

Ar gyfer 3.1 mae'r dysgwr yn gallu amlinellu pwysigrwydd gwerthoedd gweithle sy'n gallu cynnwys datganiadau cenhadaeth, gwerthoedd craidd, datganiadau gweledigaeth ac ati.

Ar gyfer 3.2 mae'r dysgwr yn gallu deall manteision ymddygiad gweithle priodol, er enghraifft cynhyrchedd uwch, gweithio tîm, effeithlonrwydd ac ati. Dylai tystiolaeth gynnwys yr effaith ar bobl eraill (yr hunan, cydweithwyr, cwsmeriaid, gweinyddiaeth busnes/y sefydliad).

Ar gyfer 3.3 mae'r dysgwr yn gallu deall ymddygiad gweithle amhriodol sy'n cynnwys agweddau/ymagweddu negyddol, cadw amser yn wael, presenoldeb gwael ac ati. Dylai tystiolaeth gynnwys yr effaith ar bobl eraill (yr hunan, cydweithwyr, cwsmeriaid, gweinyddiaeth busnes/y sefydliad).

Ar gyfer 4.1 mae'r dysgwr yn gallu dangos ymddygiad proffesiynol ar gyfer amgylchedd gweinyddu busnes. Gall tystiolaeth gynnwys y defnydd o chwarae rôl, tystiolaeth tyst, tystiolaeth fideo neu dull derbyniol arall.

Ar gyfer 5.1 mae'r dysgwr yn gallu deall sut mae polisïau a gweithdrefnau'n gallu cael effaith ar ymddygiad cyflogaion o fewn sefydliad. Er enghraifft Camymddwyn - disgyblu, colli swydd

cyfrinachedd –torri diogeledd data –  
diogelwch - mynediad heb awdurdod  
iechyd a diogelwch – yr hunan a phobl eraill  
Systemau T&Ch – defnydd derbyniol (cyfryngau cymdeithasol,  
rhyngwyd a pholisïau e-bost), deddf camddefnyddio cyfrifiadur  
cydraddoldeb ac amrywiaeth – tegwch i bawb.

### **Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau  
asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion
- arsylwi.

## Uned 476

## Creu argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid

<b>RHAU:</b>	Y/508/4457
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	15
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i ddangos eu bod yn deall codau gwisg ar gyfer gwahanol rolau swydd, pwysigrwydd creu argraff gadarnhaol a chwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>376</b> Creu argraff dda ar gwsmeriaid</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall amrywiaeth o godau gwisg ar gyfer gwahanol rolau swydd.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio godau gwisg priodol ar gyfer gwahanol rolau swydd 1.2 disgrifio gwisg amhriodol ar gyfer gwahanol rolau swydd 1.3 adnabod gwahanol godau gwisg mewn gwahanol ddiwydiannau.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Deall pwysigrwydd creu argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio pwysigrwydd gwneud argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid 2.2 nodi rhesymau pam gall golwg bersonol achosi gwahanol adweithiau gan gwsmeriaid 2.3 disgrifio ffyrdd o gyflwyno'r hunan i wneud argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall sut i gwrdd â disgwyliaidau cwsmeriaid.

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 disgrifio dulliau o gyfathrebu gyda chwsmeriaid i sefydlu disgwyliaidau
- 3.2 disgrifio dulliau penodol o gyfathrebu wrth ddelio â chwsmeriaid
- 3.3 disgrifio pa fathau o iaith y dylid eu hosgoi wrth ddelio â chwsmeriaid
- 3.4 disgrifio ffyrdd o gadarnhau bod disgwyliaidau cwsmeriaid wedi'u cwrdd.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer 1.1 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio codau gwisg ar gyfer gwahanol rolau swydd. Dylai dysgwyr ystyried sefydliadau sy'n rhoi gwisgoedd gwaith, bathodynau enw a/neu ddillad penodol i gwrdd â gofynion iechyd a diogelwch.

Ar gyfer 1.2 mae angen i'r dysgwr ddisgrifio gwisg amhriodol mewn gwahanol rolau swydd. Gallen nhw ddefnyddio enghreifftiau o'u profiadau eu hunain, rhoi sylw i feysydd fel methiant i wisgo gwisg gwaith/ bathodyn enw, dillad annhaclus neu frwnt, dillad sy'n dangos gormod neu wisgo heb ystyriaeth i risgiau iechyd a diogelwch.

Ar gyfer 1.3 rhaid i'r dysgwr adnabod gwahanol godau gwisg sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol ddiwydiannau er enghraifft:

- troswisg (e.e. staff garej, addurnwyr, archfarchnad)
- Dillad arbennig ar gyfer dibenion hylendid (e.e. hetiau i gadw'r gwallt i mewn, menig plastig os yw'n gweithio gyda bwyd)
- Siwt smart (yn aml yn cael ei gwisgo mewn swyddfeydd neu fanciau i gwrdd â disgwyliadau cwsmer am broffesiynoldeb)
- Dillad ffasiynol (yn cael eu gwisgo mewn siop i hysbysebu ffasiwn diweddaraf y siop)
- Dillad sy'n ffitio cynllun lliw i gyfateb i liwiau'r sefydliad.
- Gallai cod gwisg amrywio hefyd i nodi gwahanol lefelau o gyfrifoldeb e.e. gallai crys, tei a throwsus/sgert ffurfiol mewn bwyty bwyd cyflym ddangos mwy o gyfrifoldeb tra bod staff mewn gwahanol rolau'n gallu gwisgo crys polo lliw a throwsus mwy gwydn.

Ar gyfer 2.1 mae'r dysgwr yn gallu disgrifio pwysigrwydd gwneud argraff gyntaf dda ar gwsmeriaid; gall hyn fod ar lafar, yn ysgrifenedig; neu wyneb yn wyneb gyda chwsmeriaid mewnol neu allanol. Rhaid iddynt ystyried sut mae eu hymddygiad ac agwedd yn dylanwadu ar ymddiriedaeth, boddhad a theyrngarwch cwsmeriaid, ac a yw'r cwsmer yn dewis gwneud busnes gyda'ch sefydliad.

Ar gyfer 2.2 mae'r dysgwr yn gallu nodi pam mae golwg bersonol yn gallu achosi gwahanol adweithiau gan gwsmeriaid. Er enghraifft, gallai rhywun ag ewinedd brwnt, gwallt annhaclus, golwg anniben, gormod o golur/persawr a dillad sy'n dangos gormod greu argraff negyddol. Dylent ddeall bod golwg hefyd yn ymgorffori agwedd ac iaith y corff.

Ar gyfer 2.3 mae'r dysgwr yn gallu disgrifio ffyrdd o gyflwyno'u hunain i wneud argraff dda ar gwsmeriaid. Gall hyn gynnwys gwisg, golwg gorfforol, ymddygiad ac agwedd.

Ar gyfer 3.1 bydd y dysgwr yn gallu disgrifio dulliau o gyfathrebu gyda chwsmeriaid i sefydlu disgwyliadau. Er enghraifft gofyn y cwestiynau

cywir, ymateb, gweithredu o fewn terfynau cyfrifoldeb, parchu gofod personol, beidio â bod yn orgyfeillgar ac ati.

Ar gyfer 3.2 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio dulliau periodol o gyfathrebu wrth ddelio â chwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o gyfathrebu ysgrifenedig e.e. llythyr, e-bost, neges destun, a dulliau cyfathrebu llafar e.e. ffôn, wyneb yn wyneb.

Ar gyfer 3.3 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio pa fathau o iaith y dylid eu hosgoi wrth ddelio â chwsmeriaid. Er enghraifft rhegi, bratiaith, sylwadau amhriodol am rywedd, hil, diwylliant, oed neu anabledd a pham na ddylen nhw byth ddefnyddio unrhyw iaith sy'n tramgwyddo gyda chwsmeriaid, pa mor ddig neu ymosodol bynnag yw'r cyfathrebu a dderbyniwyd neu os yw gwrthdaro'n datblygu e.e. bydd yn cynhyrfu'r cwsmer, nid yw'n broffesiynol.

Ar gyfer 3.4 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio ffyrdd o gadarnhau bod disgwyliadau cwsmeriaid wedi'u cwrdd. Er enghraifft adborth cwsmeriaid, cadw/teyrngarwch cwsmeriaid ac argymhellion ac ati.

### **Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion
- arsylwi.

## Uned 477 Profiad gwasanaeth cwsmeriaid

<b>RHAU:</b>	L/508/4701
<b>Lefel:</b>	L1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	15
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw helpu'r dysgwr i adeiladu dealltwriaeth o brofiad y cwsmer, gan gynnwys adnabod gwahanol sefyllfaoedd gwasanaeth i'r cwsmer a phrosesau yn ogystal â helpu i ddarparu boddhad cwsmer ar adeiladu perthynas.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>377</b> Profiad gwasanaeth cwsmeriaid</li></ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Gwybod am brofiad gwasanaeth cwsmeriaid.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 disgrifio amrywiaeth o sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid 1.2 disgrifio camau mewn proses gwasanaeth i gwsmeriaid.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod sut mae cyflawni boddhad cwsmeriaid.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 disgrifio'r cyswllt rhwng disgwyliadau cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid 2.2 disgrifio cyflwyno gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n rhoi boddhad i gwsmeriaid.

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 3. Gallu adeiladu perthynas gyda chwsmeriaid.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 3.1 adnabod teimladau cwsmeriaid i adeiladu perthynas gyda nhw 3.2 siarad yn glir â chwsmeriaid i'w gwneud yn gysurus.

## Uned 477

# Profiad gwasanaeth cwsmeriaid Gwybodaeth ategol

### Arweiniad a Thystiolaeth

Ar gyfer 1.1 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio o leiaf **bedair** gwahanol sefyllfa gwasanaeth cwsmeriaid. Gallai'r rhain fod ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallai hyn gynnwys cwsmeriaid mewnol neu allanol. Gallai'r dysgwr ddefnyddio eu profiadau cadarnhaol neu negyddol fel cwsmer wrth ddisgrifio'r sefyllfaoedd gwasanaeth cwsmeriaid hyn.

Ar gyfer 1.2 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio'r camau'r broses gwasanaeth cwsmeriaid gan esbonio pob cam sy'n dilyn o:

- Nodi anghenion y cwsmer – beth sydd ei angen arnynt, erbyn pryd, gan gasglu gwybodaeth trwy gwestiynu
- Chwilio am wybodaeth neu fanylion cynnyrch/gwasanaeth - ymchwilio i ddewisiadau neu opsiynau, chwilio am ddatrysiadau
- Rhoi opsiynau i'r cwsmer - gan gynnig y dwisiadau i gwrdd â'r canlyniad a ddymunir, delio â cheisiadau neu ymholiadau
- Cadarnhau penderfyniad y cwsmer - dewis cynnyrch neu wasanaeth neu ddatrysiad i'r cais neu ymholiad
- Sicrhau bod y cwsmer yn fodlon – cwrdd â'r canlyniad a ddymunnir, cynnig dewisiadau eraill neu gynnig dilynol os nad oes boddhad cwsmer.

Ar gyfer 2.1 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio'r cyswllt rhwng disgwyliadau cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid. Er enghraifft disgwyliad o lefel benodol o wasanaeth cwsmeriaid a chyflwyno lefel dda o wasanaeth cwsmeriaid.

Ar gyfer 2.2 rhaid i'r dysgwr ddisgrifio **tair** elfen o gyflwyno gwasanaeth cwsmeriaid sy'n cyfrannu at fod y cwsmer yn fodlon. Gallai hyn gynnwys bod eu hymholiad wedi'i ateb yn brydlon, problemau wedi'u datrys yn gyflym ac yn gadarnhaol, gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio, y staff yn wybodus ac yn gynorthwyol. Gallai'r dysgwr ddefnyddio'i brofiadau cadarnhaol ei hun fel cwsmer.

Ar gyfer 3.1 rhaid i'r dysgwr adnabod teimladau'r cwsmer. Er enghraifft hapus, wedi'i gynhyrfu, dryslyd, dig. Dylai'r dysgwr ddangos diddordeb yn y cwsmer, eu cyfarch yn briodol a gwrandao ar eu hanghenion. Dylai'r dysgwr ystyried sut maen nhw'n ymateb yn briodol i'r cwsmer er enghraifft diolch iddyn nhw, ymddiheuro iddyn nhw os yw pethau'n mynd o le ac ati. Gellid cael tystiolaeth am hyn trwy ddefnyddio chwarae rôl.

Ar gyfer 3.2 rhaid i'r dysgwr siarad yn glir, yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan ddefnyddio iaith corff a llafar briodol. Eu bod wedi mabwysiadu tòn broffesiynol a chynorthwyol (e.e. gwenu a chynnal cyswllt llygad ac ati). Gellid cael tystiolaeth am hyn trwy ddefnyddio chwarae rôl.

### **Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion
- arsylwi.

## Uned 480

# Cyflwyniad i weithio mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant

<b>RHAU:</b>	M/507/4985
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	3
<b>ODDA:</b>	27
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr drosolwg o werthoedd, egwyddorion, sgiliau ac agweddau angenrheidiol i weithio mewn iechyd, gofal oedolion a gofal plant.
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Dim

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gwybod amrywiaeth y ddarpariaeth gwasanaeth sydd ar gael mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 adnabod gwahanol wasanaethau sydd ar gael o fewn:
  - a. gofal iechyd
  - b. gofal oedolion
  - c. gofal plant
- 1.2 rhoi enghreifftiau o unigolion a allai gael mynediad i wasanaethau gofal oedolion
- 1.3 rhoi enghreifftiau o pam gallai unigolion gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd
- 1.4 amlinellu'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol, preifat a'r trydydd sector
- 1.5 amlinellu sut mae **gofal anffurfiol** yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth.

### Cwmpas

#### Gofal anffurfiol

Wedi'i ddarparu gan y teulu, ffrindiau, cymdogion, gwirfoddolwyr, grwpiau cefnogi, fforymau ar-lein ac ati.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod yr amrywiaeth o rolau swydd o fewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 adnabod rolau swydd o fewn:
  - a. gofal iechyd
  - b. gofal oedolion
  - c. gofal plant.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod yr amrywiaeth o **sgiliau** ac **agweddau** angenrheidiol i weithio mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 rhestru **sgiliau** ac **agweddau** angenrheidiol i weithio mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant
- 3.2 adnabod eu **sgiliau** ac **agweddau** eu hunain sy'n gofyn am ddatblygiad pellach i gael cyflogaeth mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

### Cwmpas

#### Sgiliau

Beth mae'n rhaid i chi allu'i wneud.

#### Agweddau

Ffyrdd o feddwl sy'n dylanwadu ar sut rydych chi'n ymagweddu at eich gwaith gydag unigolion, gofaluwr anffurfiol a phobl broffesiynol eraill.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. Gwybod deddfwriaeth, egwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i ofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 4.1 adnabod deddfwriaeth, safonau ac arweiniad sy'n sail i egwyddorion a gwerthoedd gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant
- 4.2 amlinellu ystyr ymarfer person-ganolog neu ymarfer plentyn-ganolog
- 4.3 amlinellu ystyr 'cyfrinachedd' yng nghyd-destun gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant
- 4.4 amlinellu ystyr 'dyletswydd gofal mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant
- 4.5 amlinellu ystyr 'cydraddoldeb' a 'chynhwysiad' mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant
- 4.6 amlinellu pwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiad mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer canlyniad 1.1 gallai gwahanol fathau o wasanaeth gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Gwasanaethau yn y gymuned i oedolion
- Gwasanaethau yn y gymuned i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau cartref i oedolion
- Gwasanaethau cartref yn y gymuned i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau Dydd i oedolion
- Gwasanaethau preswyl i oedolion
- Darpariaeth meithrinfa
- 
- Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Gofal o bellter
- Gofal ychwanegol
- Tai â chymorth
- Cyflogaeth â chymorth
- Cymorth Hunangyfeiriedig
- Gwasanaethau Ysbyty Aciwt
- Ysbytai Cymunedol
- Gwasanaethau Ymarfer Meddygol Fferyllfa
- mewn Ysbytai ac yn y Gymuned
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau
- Gofal Iechyd Ategol
- Gofal diwedd bywyd
- Ailailuogi
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau iechyd rhywiol

Ar gyfer canlyniad 3.1 mae **sgiliau** ac **agweddau**'n cynnwys amynedd, iaith corff gadarnhaol, empathi, gwrandawr da, gofalgar, llythrennog, rhif-lythrennog, cyfathrebwr effeithiol, dibynadwy, onest, prydlon.

**Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion
- arsylwi.

<b>RHAU:</b>	R/507/5191
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	2
<b>ODDA:</b>	16
<b>Nod:</b>	Nod yr uned yw rhoi i ddysgwr gyflwyniad i wasanaeth cwsmeriaid. Mae'n cwmpasu pwysigrwydd ymddangosiad personol ac argraff gyntaf. Mae'r uned hon hefyd yn ceisio rhoi i'r dysgwr ddealltwriaeth o wahanol fathau o <u>gwsmeriaid a chyfathrebu.</u>
<b>Asesiad:</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd:</b>	Mae'r uned hon wedi'i gwahardd gyda'r uned ganlynol o fewn 5546: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 371 Cyflwyniad i wasanaeth cwsmeriaid</li> </ul>

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall pam mae ymddangosiad personol yn bwysig yn y gweithle.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 rhoi enghreifftiau o sut gall ymddangosiad personol greu <b>argraff gadarnhaol</b> 1.2 rhoi rhesymau pam mae dilyn cod gwisg yn bwysig i'r gwaith 1.3 nodi pam mae hylendid personol yn bwysig i'r gwaith.

<b>Cwmpas</b>
<b>Argraff gadarnhaol</b> I'r cyflogwr a'r cwsmer.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall y gwahaniaeth rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 amlinellu'r gwahaniaethau rhwng cwsmer mewnol a chwsmer allanol
- 2.2 rhoi enghreifftiau o **anghenion cwsmer mewnol**
- 2.3 rhoi enghreifftiau o **anghenion cwsmer allanol**.

### Cwmpas

#### Anghenion cwsmer mewnol

Cael amgylchedd da i weithio yn ddo, cael adnoddau cywir i weithio â nhw, cael ei hyfforddi i'r safon gywir i allu gwneud ei waith.

#### Anghenion cwsmer allanol

Derbyn gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd da, derbyn cyngor defnyddio a phroffesiynol, cadw'n gyfredol gyda chynigion a chynhyrchion diweddar.

### Canlyniad Dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall y gwahaniaeth rhwng cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol.

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 amlinellu'r gwahaniaethau rhwng ffurfiol ac anffurfiol **cyfathrebu**
- 3.2 rhoi enghreifftiau o **gyfathrebu** ffurfiol
- 3.3 rhoi enghreifftiau o **gyfathrebu** anffurfiol.

### Cwmpas

#### Cyfathrebu

Gall fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. Gallu cyfathrebu gyda chwsmeriaid.

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 nodi sut i gyfarch cwsmeriaid mewn ffordd **gadarnhaol**

4.2 dangos pwysigrwydd siarad yn glir wrth gyfathrebu gyda chwsmeriaid

4.3 dangos pwysigrwydd iaith corff **gadarnhaol** wrth gyfathrebu gyda chwsmeriaid.

**Cwmpas****Cadarnhaol**

Hyder, tôn, iaith, iaith y corff ac ati.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Ar gyfer 1.1 rhaid i ddysgwyr roi o leiaf dair enghraifft o sut mae ymddangosiad personol yn gallu creu argraff gadarnhaol. Mae hyn yn gallu cynnwys hyder personol, cymhelliad, agwedd, enw da a chynrychioli'r cwmni, hawdd mynd ato ac ati.

Ar gyfer 1.2 rhaid i ddysgwyr roi o leiaf dri rheswm pam mae dilyn cod gwisg yn bwysig ar gyfer gweithio. Mae hyn yn gallu cynnwys am resymau hylendid, am resymau diogelwch personol Offer Amddiffyn Personol (PPE), hysbysebu'r cwmni/cynhyrchion, brand y cwmni e.e. gwisg gwaith, bathodynnau enw ac ati.

Ar gyfer 2.1 a 2.2 rhaid i'r dysgwr amlinellu'r gwahaniaethau rhwng cwsmeriaid mewnol ac allanol. Er enghraifft mae'r cwsmer mewnol yn darparu cynhyrchion neu wasanaethau o fewn y cwmni ond mae cwsmeriaid allanol yn prynu'r cynnyrch neu wasanaeth gan y cwmni. Yn ogystal bydd gan gwsmeriaid mewnol ac allanol anghenion unigol.

Ar gyfer 3.2 a 3.3 rhaid i ddysgwyr roi o leiaf dair enghraifft am bob math o gyfathrebu. Gall hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ar gyfer 4.2 rhaid i ddysgwyr ddangos pwysigrwydd defnyddio tŷn, gan siarad yn glir ac iaith corff gadarnhaol wrth gyfathrebu gyda chwsmeriaid. Mae hyn yn gallu cynnwys gwneud cyswllt llygad, gwenu, gwybod pwysigrwydd gofod personol ac ati.

**Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion
- arsylwi.

<b>RHAU:</b>	J/615/0236
<b>Lefel:</b>	1
<b>Gwerth credydau:</b>	1
<b>ODDA:</b>	12
<b>Nod:</b>	Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall datgeliad cadarnhaol a'i fanteision.
<b>Asesu</b>	Portffolio'r dysgwr
<b>Gwahardd</b>	Dim

<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 1. Deall ystyr y term 'datgelu'
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 1.1 nodi ystyr y term 'datgelu' 1.2 nodi lle mae <ul style="list-style-type: none"> <li>• angen datgeliad</li> <li>• ai peidio</li> </ul> 1.3 rhoi enghreifftiau o effaith peidio â datgelu.
<b>Canlyniad Dysgu</b>
Bydd y dysgwr yn: 2. Gwybod am y gyfraith gyfredol am ddatgelu.
<b>Meini prawf asesu</b>
Mae'r dysgwr yn gallu: 2.1 nodi'r gyfraith bresennol am ddatgelu 2.2 nodi beth yw ystyr y term cyfnod adsefydlu 2.3 nodi pryd mae euogfarn wedi'i <ul style="list-style-type: none"> <li>• threulio</li> <li>• heb ei threulio</li> </ul> 2.4 rhestru ffynonellau o gefnogaeth i helpu i nodi eu cyfnod adsefydlu eu hunain

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall pryd mae angen datgeliad.

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

3.1 dangos gwahanol **fformatau** datgeliad

3.2 dangos sut i lunio datganiad datgeliad

3.3 nodi pryd yn y broses recriwtio y gall fod angen datgeliad.

**Cwmpas**

**Fformatau** llafar neu ysgrifenedig

**Canlyniad Dysgu**

Bydd y dysgwr yn:

4. Deall yr angen i gynnal eu gwybodaeth datgeliad eu hunain.

**Meini prawf asesu**

Mae'r dysgwr yn gallu:

4.1 rhoi enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol y gellir eu hychwanegu at eu gwybodaeth datgeliad eu hunain.

**Arweiniad a Thystiolaeth**

Gall tystiolaeth fod yn ddatganiad dysgwr llafar neu ysgrifenedig, yn gofnod aseswr, yn ddelweddau gyda thestun.

Ar gyfer 1.1 bydd y dysgwr yn gallu nodi ystyr y term 'datgeliad'.

Ar gyfer 1.2 nodir lle mae angen datgeliad er enghraifft wrth geisio am gyflogaeth, addysg bellach/uwch neu hyfforddiant, ceisio am yswiriant, teithio tramor, gwasanaethau ariannol.

Ar gyfer 1.3 bydd y dysgwr yn gallu rhoi enghreifftiau o effaith peidio â datgelu. Er enghraifft gallai olygu euogfarn droseddol bellach, terfynu cyflogaeth, tynnu'n ôl gynnig /lleoliad cyflogaeth/ addysg.

Ar gyfer canlyniad 2 bydd y dysgwr yn gwybod am y gyfraith bresennol am ddatgeliad. Mae hyn yn cynnwys Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 (ROA) a'r Gorchymyn Eithriadau. Gellir ymdrin ag euogfarnau lluosog os yw'n briodol.

Ar gyfer 2.2 gall ffynonellau cymorth gynnwys y Gwasanaeth Profiant Cenedlaethol, y gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol, cynghorwyr gyrfaoedd, Cwmnïau Adsefydlu (CRCa), Swyddog Cyfrifol, Nacro, Unlock (Datgloi).

Ar gyfer 3.1 mae'r dysgwr yn gallu dangos gwahanol fformatau o ddatgeliad gan gynnwys fformatau llafar neu ysgrifenedig, e enghraifft ar ffurflenni cais, mewn llythyrau eglurhaol, datganiadau datgelu, datgeliad mewn cyfweiliad etc.

Ar gyfer 3.2 mae'r dysgwr yn gallu dangos sut i lunio datganiad datgeliad. Er enghraifft:

- cychwyn gyda ffocws ar eu sgiliau a'u galluoedd (sy'n addas i'r rôl y maen nhw'n gwneud cais amdani)
- dadansoddiad o'r trosedd/au a'r amgylchiadau am y trosedd/au
- wedi'i ddilyn gan y ffyrdd y mae'r amgylchiadau wedi newid gan gynnwys unrhyw newidiadau cadarnhaol sydd wedi dod o hyn h.y. addysg a hyfforddiant, newidiadau mewn agweddau/ amgylchiadau.

Ar gyfer 3.3. mae'r dysgwr yn gallu nodi pryd mae angen datgeliad yn y broses recriwtio. Bydd hyn yn amrywio rhwng gwahanol gyflogwyr. Efallai y bydd angen i ddysgwyr ymchwilio i bolisiau/prosesau cwmnïau. Bydd hyn yn cynnwys cynllun Gweld Potensial, y cynllun 'Gwahardd y Blwch' (Ban the Box) ac EFFRR (Fforwm Cyflogwyr i Leihau Aildroseddu).

Ar gyfer 4.1 bydd y dysgwr yn gallu rhoi enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol a all gynnwys: gwirfoddoli, profiad gwaith, prosiectau/gwaith cymunedol, addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, amgylchiadau wedi newid ac ati.

### **Gofynion tystiolaeth**

Gellir casglu tystiolaeth o'r amrywiaeth canlynol o ddulliau asesu:

- cwestiynau ac atebion
- datganiad dysgwr
- datganiad tiwtor/aseswr
- adolygu a chofnodion
- tiwtorial dalennau gwaith
- dyddiadur
- tystiolaeth tystion.

**Atodiad 1****Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-01-02-03-04-05-06**

Mae rhestr o holl unedau Lefel 1 ar gael yng nghymwysterau Sgiliau Cyflogadwyedd (Lloegr a Chymru) 5546-01-02-03-04-05-06:

<b>Uned</b>	<b>RHAU</b>	<b>Teitl</b>	<b>Gwerth credyda u</b>	<b>ODDA</b>
401	F/501/6878	Cynllunio ar gyfer dilyniant	3	20
402	T/506/2708	Rheoli cyllid personol	3	20
403	K/501/6891	Profiad yn y gweithle	3	15
404	R/506/2702	Cyfathrebu effeithiol	2	13
405	A/501/6880	Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau	3	24
407	K/505/4654	Sgiliau cyfweld	3	18
408	J/506/2731	Chwilio am swydd	2	20
409	F/505/4658	Dilyniant gyrfa	2	16
410	L/506/2732	Cadw'n ddiogel	3	26
411	L/505/4663	Gweithio fel rhan o dîm	3	25
412	D/504/8169	Cyfrannu at eu byw'n iach eu hunain	2	20
413	A/505/4660	Dysgu diogel yn y gweithle	4	23
414	A/506/2709	Paratoi ar gyfer gwaith	2	12
415	F/505/4661	Adeiladu perthnasoedd gwaith yn y gweithle	2	17
416	J/505/4662	Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth	3	20
417	L/506/3136	Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith	2	17
418	Y/501/6899	Prosiect yr ymgeisydd	3	20
419	J/505/4659	Gweithgaredd mentergarwch - cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth	3	23
420	T/501/6893	Ymgymryd â lleoliad gwaith	3	22
421	Y/505/4665	Prosiect cymuned	3	14
422	J/505/4743	Hunan asesiad a datblygiad	3	25

Uned	RHAU	Teitl	Gwerth Credydau	ODDA
423	M/506/2710	Adnabod manteision cael cydbwysedd gwaith/bywyd	2	9
424	J/600/7805	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y gweithle	2	18
425	Y/506/2703	Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu yn y gwaith	2	14
426	A/501/6894	Cyfrannu i dîm	3	20
427	J/506/2664	Adnabod cyfleoedd cyflogaeth	2	12
428	J/506/2700	Ymwybyddiaeth o fusnesau a chwsmeriaid	1	7
429	Y/506/2698	Dewisiadau gwahanol i waith cyflog	2	11
430	M/506/2786	Delio â phroblemau	1	10
431	L/506/2701	Datblygu hyder personol	1	10
432	T/506/2711	Deall ymddygiad pendant	1	10
433	R/506/2733	Delio gyda newid	2	20
434	R/505/4664	Perthnasoedd rhyngpersonol	2	14
435	D/506/2699	Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth	2	17
436	F/600/7804	Gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth	2	16
437	K/600/6193	Deall iaith a diwylliant cymuned	3	26
438	H/501/6887	Cefnogi pobl eraill	3	22
439	D/506/2704	Ymwybyddiaeth amgylcheddol	2	12
440	H/506/2705	Perthnasoedd teulu	1	10
441	L/501/6883	Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle	3	20
442	T/506/2787	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o alcohol	3	30
443	K/506/2706	Cyflwyniad i wneud penderfyniadau	1	9
444	M/506/2707	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o gyffuriau	2	12
445	L/506/2665	Deall trosedd a'i effeithiau	3	18
446	F/506/2789	Defnyddio deunyddiau a chyfarpar ar gyfer gweithgaredd ymarferol	1	10
447	A/506/2788	Deall anhwylderau bwyta	1	10
448	Y/506/6234	Ymwybyddiaeth o straen a rheoli straen	3	30

Uned	RHAU	Teitl	Gwerth Credyda u	ODDA
449	L/506/8126	Deall gwrthdaro yn y gweithle	1	6
450	R/506/8127	Deall cyllid personol ar gyfer cyflogaeth	2	12
451	Y/506/8128	Byw pendant	3	27
452	L/506/8093	Ymwybyddiaeth o rianta	2	20
453	L/506/8143	Datblygu sgiliau mewn gofalu am blant ifanc	3	27
454	R/506/8144	Deall datblygiad plant	3	30
455	R/506/8564	Deall datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant	3	27
456	D/506/8146	Cyflwyniad i ddeall twf, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant	3	27
457	J/506/8562	Deall anghenion corfforol a seicolegol plant	3	27
458	J/506/8125	Addysg rhyw a pherthnasoedd	3	27
459	K/506/8120	Defnyddio sgiliau coginio yng nghegin y cartref	3	27
460	K/506/8117	Cyflwyniad i weithio gydag oedolion agored i niwed	1	9
461	D/506/8096	Datblygu technegau perfformio byrffyr	3	27
462	L/507/0295	Ymgeisio am swydd	2	16
475	A/508/4449	Ymddygiad mewn amgylchedd gweinyddu busnes	2	16
476	Y/508/4457	Creu argraff gadarnhaol ar gwsmeriaid	2	15
477	L/508/4701	Profiad gwasanaeth i gwsmeriaid	2	15
480	M/507/4985	Cyflwyniad i weithio mewn gofal iechyd, gofal oedolion a gofal plant	3	27
486	R/507/5191	Cyflwyniad i wasanaeth cwsmeriaid	2	16
488	J/615/0236	Datgelu gwybodaeth	1	12

**Atodiad 2****Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-21-22-23-24-25**

Mae rhestr o holl unedau Lefel 1 ar gael yng nghymwysterau Sgiliau Cyflogadwyedd (Gogledd Iwerddon) 5546-21, 22, 23, 24, 25:

Uned	RHAU	Teitl	Gwerth credyda u	ODD A
401	F/501/6878	Cynllunio ar gyfer dilyniant	3	20
403	K/501/6891	Profiad yn y gweithle	3	15
405	A/501/6880	Cynllunio gyrfa a gwneud ceisiadau	3	24
406	D/505/4652	Ymgeisio am swydd	2	16
407	K/505/4654	Sgiliau cyfweld	3	18
408	J/506/2731	Chwilio am swydd	2	20
409	F/505/4658	Dilyniant gyrfa	2	16
413	A/505/4660	Dysgu diogel yn y gweithle	4	23
414	A/506/2709	Paratoi ar gyfer gwaith	2	12
415	F/505/4661	Adeiladu perthnasoedd gwaith yn y gweithle	2	17
417	L/506/3136	Ymchwilio i hawliau a chyfrifoldebau yn y gwaith	2	17
419	J/505/4659	Gweithgaredd mentergarwch - cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth	3	23
421	T/501/6893	Prosiect cymunedol	3	22
424	J/600/7805	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y gweithle	2	18
427	J/506/2664	Adnabod cyfleoedd cyflogaeth	2	12
428	J/506/2700	Ymwybyddiaeth o fusnesau a chwsmeriaid	1	7
441	L/501/6883	Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle	3	20

**Atodiad 3****Unedau Lefel 1 ar gael yn 5546-31-32-33-34-35**

Mae rhestr o'r holl unedau Lefel 1 ar gael yng nghymwysterau sgiliau Personol a Chymdeithasol 5546-31-32-33-34-35:

Uned	RHAU	Teitl	Gwerth credyda	ODDA
			u	
402	T/506/2708	Rheoli cyllid personol	3	20
404	R/506/2702	Cyfathrebu effeithiol	2	13
406	D/505/4652	Ymgeisio am swydd	2	16
407	K/505/4654	Sgiliau cyfweld	3	18
408	J/506/2731	Chwilio am swydd	2	20
410	L/506/2732	Cadw'n ddiogel	3	26
411	L/505/4663	Gweithio fel rhan o dîm	3	25
412	D/504/8169	Cyfrannu at eu byw'n iach eu hunain	2	20
416	J/505/4662	Hawliau, cyfrifoldebau a dinasyddiaeth	3	20
418	Y/501/6899	Prosiect yr ymgeisydd	3	20
421	T/501/6893	Prosiect cymuned	3	22
422	J/505/4743	Hunan asesiad ac datblygiad	3	25
423	M/506/2710	Adnabod manteision cael cydbwysedd gwaith/bywyd	2	9
425	Y/506/2703	Sgiliau effeithiol, rhinweddau ac agweddau ar gyfer dysgu yn y gwaith	2	14
426	A/501/6894	Cyfrannu i dîm	3	20
428	J/506/2700	Ymwybyddiaeth o fusnesau a chwsmeriaid	1	7
429	Y/506/2698	Dewisiadau gwahanol i waith cyflog	2	11
430	M/506/2786	Delio â phroblemau	1	10
431	L/506/2701	Datblygu hyder personol	1	10
432	T/506/2711	Deall ymddygiad pendant	1	10
433	R/506/2733	Delio gyda newid	2	20
434	R/505/4664	Perthnasoedd rhyngpersonol	2	14

Uned	RHAU	Teitl	Gwert h credyd au	ODD A
435	D/506/2699	Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth	2	17
436	F/600/7804	Gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth	2	16
437	K/600/6193	Deall iaith a diwylliant cymuned	3	26
438	H/501/6887	Cefnogi pobl eraill	3	22
439	D/506/2704	Ymwybyddiaeth amgylcheddol	2	12
440	H/506/2705	Perthnasoedd teulu	1	10
442	T/506/2787	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth alcohol	3	30
443	K/506/2706	Cyflwyniad i wneud penderfyniadau	1	9
444	M/506/2707	Cyflwyniad i ymwybyddiaeth cyffuriau	2	12
445	L/506/2665	Deall trosedd a'i effeithiau	3	18
446	F/506/2789	Defnyddio deunyddiau a chyfarpar ar gyfer gweithgaredd ymarferol	1	10
447	A/506/2788	Deall anhwylderau bwyta	1	10



## Atodiad 4 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ganolfannau sy'n cyflwyno cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i **hafan Canolfannau a Darparwyr Hyfforddiant** ar [www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com).

Mae **Llawlyfr Canolfannau - Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a gofynion y mae'n rhaid cwrdd â nhw er mwyn i ganolfan ennill statws 'canolfan gymeradwy', neu i gynnig cymhwyster arbennig, yn ogystal â diweddariadau ac enghreifftiau o arfer da ar gyfer asesiad a materion polisi City & Guilds. Yn benodol, mae'r ddogfen yn cynnwys adrannau ar:

- Y ganolfan a'r broses cymeradwyo cymwysterau
- Asesu, sicrhau ansawdd mewnol a rolau arholiad yn y ganolfan
- Cofrestru ac ardystio ymgeiswyr
- Diffyg cydymffurfio
- Cwynion ac apeliadau
- Cyfleoedd Cyfartal
- Diogelu data
- Systemau rheoli
- Cynnal cofnodion
- Asesu
- Sicrhau Ansawdd Mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol.

Mae **ein Gofynion Sicrhau Ansawdd** yn cwmpasu holl ofynion perthnasol dogfennau rheoleiddio allweddol fel:

- Trefniadau Rheoleiddio ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau a
- Chredydau Meini Prawf Corff Dyfarnu SQA
- Cod Ymarfer NVQ

ac yn gosod allan y meini prawf y dylai canolfannau gadw atyn nhw cyn ac ar ôl cael cymeradwyaeth canolfan

Mae ***Mynediad i Asesu a Chymwysterau*** yn rhoi manylion llawn y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer addasiadau wrth asesu.

Mae adran **tudalen hafan** gwefan City & Guilds hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar bethau fel:

- **Walled Garden:** sut i gofrestru ac ardystio ymgeiswyr ar-lein
- **Digwyddiadau:** dyddiadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau diweddaraf y Ganolfan
- **Asesu ar-lein:** sut i gofrestru am e-asesiadau.

Mae ***Arweiniad-i Ganolfannau - Cyflwyno Cymwysterau Rhyngwladol*** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a gofynion er mwyn i ganolfan ennill statws 'canolfan gymeradwy', neu gynnig cymhwyster penodol. Yn benodol, mae'r ddogfen yn cynnwys adrannau ar:

- Y ganolfan a ffurflenni a phroses cymeradwyo cymhwyster
- Asesu, gwirio a rolau arholiad yn y ganolfan
- Cofrestru ac ardystio ymgeiswyr
- Diffyg cydymffurfio
- Cwynion ac apeliadau
- Cyfleoedd Cyfartal
- Diogelu data
- Cwestiynau cyffredin.

# Cysylltiadau defnyddiol

---

**Dysgwyr y D.U.**

Gwybodaeth gyffredinol ar y cymhwyster

E-bost: [learnersupport@cityandguilds.com](mailto:learnersupport@cityandguilds.com)

---

**Dysgwyr rhyngwladol**

Gwybodaeth gyffredinol am y cymhwyster

E-bost: [intcg@cityandguilds.com](mailto:intcg@cityandguilds.com)

---

**Canolfannau**

Ceisiadau Arholiad, Tystysgrifau, Cofrestriadau / ymrestru, Anfonebau, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau, Canlyniadau

E-bost: [centresupport@cityandguilds.com](mailto:centresupport@cityandguilds.com)

---

**Cymwysterau pwnc unigol**

Ceisiadau arholiad, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Papurau arholiad anghywir, Cais am Ffurflenni (BB, cofnodi canlyniadau), Newid dyddiad ac amser arholiad

E-bost: [singlesubjects@cityandguilds.com](mailto:singlesubjects@cityandguilds.com)

---

**Dyfarniadau rhyngwladol**

Canlyniadau, Ceisiadau, Ymrestriadau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau

E-bost: [intops@cityandguilds.com](mailto:intops@cityandguilds.com)

---

**Walled Garden**

Ailgyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Ceisiadau, Canlyniadau, e-asesu, Llywio, Dewis defnyddiwr/dewislen, Problemau

E-bost: [walledgarden@cityandguilds.com](mailto:walledgarden@cityandguilds.com)

---

**Cyflogwr**

Datrysiadau cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau datblygu, Ymgynghoriaeth

E-bost: [business@cityandguilds.com](mailto:business@cityandguilds.com)

---

**Cyhoeddiadau**

Llyfrau log, Dogfennau'r ganolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, mae deunyddiau a gwasanaethau City & Guilds yn agored i'w datblygu a'u gwella'n barhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

Os oes gennych gŵyn neu unrhyw awgrym i wella unrhyw un o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu, e-bostiwch: [feedbackandcomplaints@cityandguilds.com](mailto:feedbackandcomplaints@cityandguilds.com)

### **Am City & Guilds**

Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talentau trwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Caiff City & Guilds ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ar draws y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

### **Grŵp City & Guilds**

Mae'r Grŵp City & Guilds yn gweithredu o dair canolfan o bwys: Llundain (yn gwasanaethu Ewrop, y Caribî a chyfandiroedd America), Johannesburg (yn gwasanaethu Affrica), a Singapore (yn gwasanaethu Asia, Awstralia a Seland Newydd). Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (cymwysterau rheoli ac arweinyddiaeth), Trwydded Ymarfer City & Guilds (cymwysterau tir), y Ganolfan Datblygu Sgiliau (mae CSD yn gweithio i wella polisi ac ymarfer addysg alwedigaethol a hyfforddiant ledled y byd ) a Chynorthwy-ydd Dysgu (e-bortffolio ar-lein).

### **Hawlfraint**

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni bai y nodir fel arall, yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute ac ni ellir ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds Mae *Yr Amodau Copïo Safonol* (gweler gwefan City & Guilds) hefyd mewn grym.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © City & Guilds of London Institute. Gwiriwch yr amodau copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

### **City & Guilds**

1 Giltspur Street

Llundain EC1A 9DD\_

[www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com)